



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mawrth 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Mehefin 2018

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru a dehongliad statudol cyfraith Cymru, ac yn ceisio barn am Fil Drafft Deddfwriaeth (Cymru).

Sut i ymateb Anfonwch eich ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy'r e-bost i'r cyfeiriad a ddarperir.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Manylion cyswllt: I gael rhagor o wybodaeth:

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: LegislativeCounsel@wales.gsi.gov.uk
rhif ffôn: 0300 025 0375

Diogelu data Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu

cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';

- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan : www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost : Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair gan y Cwnsler Cyffredinol	6
RHAN 1: HYGyrCHEDD CYFRAITH CYMRU.....	10
Pennod 1: Hygyrchedd Cyfraith Cymru	10
Cyflwyniad	10
Gwella mynediad at gyfraith Cymru	12
Pennod 2: Cynigion yn Rhan 1 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)	14
Dyletswydd i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru.....	14
Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru	15
RHAN 2: DEHONGLI CYFRAITH CYMRU YN STATUDOL	22
Pennod 1: Cymhwyso Rhan 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)	22
Y Cefndir.....	22
Cymhwyso'r Rhan hon o'r Bil.....	24
Pennod 2 – Esboniad adran wrth adran o Ran 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)	32
Cymhwyso'r Bil a diffiniadau o dermau allweddol	32
Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn deddfwriaeth.....	33
Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig.....	39
Pwerau a dyletswyddau.....	42
Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl	45
Cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at ddeddfwriaeth arall	46
Dyblygu troseddau.....	51
Cymhwyso i'r Goron.....	52
Deddfwriaeth yn dod i rym	54
Diddymu, dirymu ac ailddeddfu deddfwriaeth	56
Darpariaeth atodol	61
RHAN 3: MATERION ERAILL Y GELLID MYND I'R AFAEL Â NHW	62
Ailddatgan rhai darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.....	62
Y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cyfraith Cymru a'r broses o wneud a threfnu Offerynnau Statudol.....	63
Y berthynas rhwng testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth	63

Defnyddio cyfieithiadau Cymraeg o ddeddfiadau a chyrff sydd heb enwau Cymraeg	64
RHAN 4: ASESIAU EFFAITH.....	70
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	70
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	70
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.....	70
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol	70
Effeithiau eraill	71
Atodiad A – Geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 na chynhwysir mohonynt yn ym Mil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft	72
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	74

Rhagair gan y Cwnsler Cyffredinol

Mae'r gyfraith yn rhan hanfodol o gymdeithas wâr, cymdeithas sy'n deg, yn ffyniannus ac yn drefnus. Mae'n nodi ein hawliau a'n cyfrifoldebau. Drwy'r gyfraith yr ydym yn cael cyfiawnder. Mae'n cyfyngu ar y gallu i arfer grym mewn modd mympwyol ac yn sicrhau bod llywodraethau yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.



Mae Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn deddfu yng Nghymru. Rydym yn cymryd y broses o ddeddfu o ddifrif. Rydym yn rhoi o'n hamser ac yn ymdrechu'n galed i feddwl am syniadau, i wrando ar farn pobl eraill, i drafod ac i ddrafftio a phasio cyfreithiau sydd mor glir a manwl gywir ag y gallant fod.

Ond, fel ag yn achos y tair deddfwrfa arall yn y DU, unwaith y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio deddfwriaeth, mae'n dod yn rhan o ddrysfa enfawr a chymhleth o gyfreithiau y mae cyfreithwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd yn cael trafferth ei deall. Mae bron i 5,000 o Ddeddfau a thros 80,000 o Offerynnau Statudol ar lyfr statud y Deyrnas Unedig. Mewn gwirionedd, nid 'llyfr' mohono o gwbl. Nid oes mynegai iddo, na llawer o strwythur, ac fe gaiff ei drefnu ar sail pryd y gwneir pob deddf newydd yn hytrach na'i chynnwys. Ac mae'n newid drwy'r amser.

Mae cymhlethdod ac anghysondeb cyfansoddiad y DU yn ychwanegu at yr her o ddod o hyd i'r gyfraith a'i deall. Mae'r cyfreithiau domestig yn deillio o bedair deddfwrfa wahanol a phedair llywodraeth wahanol. Gallant fod yn gymwys i'r DU gyfan, i'r Alban yn unig, i Ogledd Iwerddon yn unig, i Gymru yn unig neu i Loegr yn unig (neu i gyfuniadau amrywiol ohonynt). Hefyd, mae'r un awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr yn golygu, a bod yn fanwl gywir, nad oes corff o gyfraith "Cymru" nac yn wir o gyfraith "Lloegr".

Rydym yn ffodus o gael byw mewn oes wybodaeth. Mae pobl yng Nghymru yn iawn i fynnu eu bod yn gallu dod o hyd i wybodaeth am y

materion sy'n effeithio ar ein bywydau. Gall llawer ohonom ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd ar-lein, mewn modd sy'n hwylus i ni. Dylai'r datblygiadau ym maes technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial olygu bod dod o hyd i'r gyfraith a'i deall yn haws nac erioed. Ond nid felly y mae hi.

Mae'r gyfraith gyfan ar gael ar-lein, ond mae'n bosibl na fydd yr oddeutu ddwy filiwn o bobl sy'n ymweld â gwefan legislation.gov.uk bob mis yn dod o hyd i'r hyn y mae arnynt ei angen. Y rheswm am hynny yw bod yn rhaid meddu ar arbenigedd er mwyn llywio drwy'r clytwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n debygol o fod yn berthnasol, a sicrhau ei fod wedi ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mynych i ddeddfwriaeth. Yn ymarferol, rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cael gwybodaeth ddibynadwy ac awdurdodol am gyflwr y gyfraith ar hyn o bryd dalu i gyhoeddwyr masnachol am y gwasanaeth hwn. Mae hwn yn wasanaeth drud nad yw ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Nid materion sy'n effeithio ar fywydau cyfreithwyr yn unig yw'r rhain. Maent yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn cael ein llywodraethu, gan fod pobl yn cael trafferth deall pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am beth; maent yn effeithio ar yr economi, gan fod angen i bobl sy'n rhedeg busnesau wybod sut y maent yn cael eu rheoleiddio; ac yn fwy sylfaenol oll, maent yn effeithio ar bob un ohonom fel dinasyddion y mae angen i ni ddeall ein hawliau a'n cyfrifoldebau o dan y gyfraith yn well - a hynny ar adeg pan fo'r toriadau i gymorth cyfreithiol eisoes yn atal mynediad at gyfiawnder.

Am resymau yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, democratiaeth ac effeithlonrwydd, mae gwneud ein cyfreithiau yn fwy hygyrch yn hanfodol bwysig felly. Bydd y broses yn cymryd blynyddoedd, ac fe fydd yn rhaid ymdrin â rhai problemau ar draws y DU, gan gydweithio â llywodraethau a deddfwrfeydd eraill. Ond yma yng Nghymru rydym wedi rhoi cychwyn arni, ac wedi gwneud ymrwymiad hirdymor i wneud pethau mewn ffordd wahanol a gwell. Ein bwriad ni yn Llywodraeth Cymru yw symleiddio cyfraith Cymru a'i hail-greu ar ffurf ddwyieithog drwy gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol sydd o fewn y meysydd

datganoledig. Wedi hynny, rydym am roi trefn arni drwy greu codau deddfwriaeth y bydd yn hawdd dod o hyd iddynt, ar bynciau penodol, a diweddarau'r codau dros amser.

Gan y bydd hyn yn cymryd blynyddoedd lawer i'w gwblhau, rydym yn bwriadu cymryd y cam anarferol o osod dyletswydd ar lywodraethau'r dyfodol i gynnal rhaglenni treigl yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i'w gwneud yn haws dod o hyd i gyfraith Cymru. Er mai ar gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith y bydd y prif bwyslais, rhaid i ni hefyd ymdrechu i wella'r modd y cyhoeddir y gyfraith ac y gwneir sylwadau arni, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym maes y gyfraith.

Fel rhan o'n hymdrech ehangach i wella'r dull o ddod o hyd i ddeddfwriaeth, ac i gymryd cyfrifoldeb am y corff cynyddol o gyfraith Cymru o fewn yr awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig sy'n datblygu, rydym hefyd yn bwriadu deddfu ar y modd y caiff cyfraith Cymru ei dehongli. Mae holl ddeddfwrfeydd eraill y DU, a'r rhan fwyaf o awdurdodaethau'r Gymanwlad, yn defnyddio deddfau ar sut i ddehongli deddfwriaeth er mwyn symleiddio a chwtogi'r llyfr statud. Fe wneir hynny drwy nodi rheolau technegol a diffiniadau cyffredin unwaith, fel nad oes angen eu hailadrodd bob tro y caiff cyfraith newydd ei drafftio. Mae'n bryd i ni gymryd y cam hwnnw yng Nghymru.

Rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb yn awr dros y cyfreithiau yr ydym wedi eu hetifeddu a'r cyfreithiau rydym yn eu gwneud, a sicrhau eu bod yn glir, yn bendant o ran eu heffaith ac yn hygyrch i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn gam hanfodol ar hyd y llwybr hwnnw.

JEREMY MILES AC/AM
Cwmsler Cyffredinol Cymru
Counsel General for Wales

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

RHAN 1: HYGJRCHEDD CYFRAITH CYMRU

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft. Rhoddir sylw i hygyrchedd cyfraith Cymru yn Rhan 1 y Bil, a dehongli statudol mewn perthynas â chyfraith Cymru yw pwnc Rhan 2. (Mae cefndir dehongli statudol ac eglurhad o ddarpariaethau Rhan 2 y Bil i'w cael yn Rhan 2 o'r papur hwn).
2. Ym Mhennod 1 o'r Rhan hon, eglurir rhai o'r rhesymau pam mae'r gyfraith yn anhygyrch, ac eir ati hefyd i ddechrau ystyried sut y gellir gwella hygyrchedd. Mae Pennod 2 yn nodi'r cynigion a geir ym Mil Deddfwriaeth (Cymru).

Pennod 1: Hygyrchedd Cyfraith Cymru

Cyflwyniad

3. Mynegwyd pryderon ers blynyddoedd lawer ynghylch cymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig (DU) a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud enfawr, sy'n llawn i'r ymylon. Y toeth o gyfreithiau a ddatblygwyd dros y degawdau diweddar yn y DU sy'n bennaf gyfrifol am y cymhlethdod hwn. Erbyn hyn, mae llyfr statud y DU yn enfawr ac yn anhylaw.
4. Gwraidd y broblem hon yw maint y ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a lled-ddeddfwriaeth sy'n bodoli, ond hefyd y ffaith bod deddfwriaeth yn cael ei diwygio, ei hailddiwygio a'i hail-wneud mewn modd anghyson dros amser. Mae'n anodd i gyfreithwyr felly, heb sôn am ddinasyddion sy'n cael eu heffeithio ganddi, lywio eu ffordd drwy'r gyfraith. Wrth gyflwyno'r mater hwn o dan fenter ddiweddar i ddatblygu "Cyfraith dda", dywedodd Swyddfa'r Deyrnas Unedig y Swyddfa Seneddol fel a ganlyn:

People find legislation difficult. The volume of statutes and regulations, their piecemeal structure, and their level of detail and frequent amendments, make legislation hard to understand and difficult to comply with. That can hinder economic activity. It can create burdens for businesses and communities. It can obstruct good government, and it can undermine the rule of law.

5. Mae dinasyddion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r gyfraith. Er mwyn gallu manteisio ar y gyfraith, a pharchu hefyd y rhwymedigaethau a roddir arnynt ganddi, rhaid i ddinasyddion allu dod o hyd i'r gyfraith a'i deall yn rhesymol hawdd. O ystyried bod cymaint o fygythiad i fynediad at gyfiawnder yn fwy cyffredinol, yn arbennig drwy gyngor cyfreithiol a ariennir gan y wladwriaeth,

mae'n hanfodol sicrhau bod cyfle da gan bobl i ddeall y gyfraith. Mae hyn wrth galon cenedl sy'n cael ei llywodraethu gan reol y gyfraith.

6. Mae llyfr statud sy'n glir, yn sicr ac yn hygyrch yn gaffaeliad yn economaidd hefyd. Mae'n rhoi fframwaith cyfreithiol mwy sefydlog a phendant i ddinasyddion a'r rheini sydd am wneud busnes. O ganlyniad, dylai helpu i ysgogi buddsoddiad a thwf, gan gadw'r rheolaeth briodol ar yr un pryd.
7. Mae'r problemau hyn yn arbennig o ddwys yng Nghymru. Er bod y sefyllfa'n newid yn gyflym ac er bod corff o gyfraith sy'n tyfu'n sydyn yn cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru, mae'r rhan fwyaf o'r cyfreithiau sy'n gymwys i Gymru hefyd yn gymwys i Loegr neu Brydain Fawr neu'r DU yn gyfan. Ar y cyfan, rydym wedi etifeddu ein cyfreithiau oddi wrth Senedd y DU ac nid ydynt yn gyffredinol, felly, yn adlewyrchu safle gwleidyddol a chyfansoddiadol y genedl fel mae heddiw.
8. Deillia rhywfaint o'r cymhlethdod hwn o'r ffaith nad oes corff ffurfiol o gyfraith Cymru. I fod yn fanwl gywir, ni ddylem siarad am "gyfraith Cymru", ond am gyfreithiau Cymru a Lloegr - sy'n cael eu hadnabod gan y rhan fwyaf fel "cyfreithiau Lloegr". Mae diffyg awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru (a'r corff cysylltiedig o gyfraith) yn rhan o'r rheswm pam mae'r dirwedd gyfreithiol mor gymhleth felly.
9. Mae cyfansoddiad y DU, ynghyd â'r broses o ddatganoli pwerau, wedi cymhlethu'r sefyllfa ymhellach. Ymagwedd gam wrth gam a graddol a fabwysiadwyd tuag at ddatganoli pŵer, ac o ganlyniad mae dryswch ynghylch pwy yn union sy'n dal y pŵer. Fel enghraifft amlwg, mae llawer o'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddfau Senedd y DU wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru erbyn hyn. Nid yw hyn yn eglur yn gyffredinol yng ngeiriad y Deddfau eu hunain, fodd bynnag. Mae hyn yn gwneud iddi ymddangos, felly, mai yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol y mae'r pŵer o hyd. Mae penderfynu ymhle i dynnu'r llinell rhwng mater sydd wedi'i ddatganoli a mater sydd heb ei ddatganoli yn dipyn anos yng Nghymru nag ydyw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon oherwydd bod ein trefniadau ni'n fwy cul a chymhleth.
10. Yn naturiol, mae'n debygol y bydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn cymhlethu'r broblem hon. Bydd mynd ati i gynnwys cyfraith a gynlluniwyd fel cyfraith ryngwladol, ac a seiliwyd yn bennaf ar greu'r farchnad sengl, yn y gyfraith ddomestig, yn dwysáu'r broblem o gyfraith anhygyrch ymhellach. Mae'r sefyllfa'n parhau'n aneglur (yn arbennig oherwydd bod llawer yn dibynnu ar natur perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol). Ond mae'n debygol y bydd angen cynnwys cyfraith Ewropeaidd yn y gyfraith ddomestig yn sydyn, a chan ddefnyddio'r dulliau mwyaf hwylus posibl. Byddai hyn yn arwain at lyfr statud

llai hygyrch eto hyd yn oed oni bai bod camau pellach yn cael eu cymryd i symleiddio'r gyfraith.

Gwella mynediad at gyfraith Cymru

11. Ar gais Llywodraeth Cymru, cafodd prosiect ei gynnwys yn Neuddegfed Raglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i ystyried "*Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*". Yn ei adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith 32 o argymhellion. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion hynny wedi cael eu derbyn neu wedi'u derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.
12. Yr angen i gydgrynhoi cyfraith Cymru, ac yna'i chodeiddio, sydd wrth wraidd adroddiad y Comisiwn ac mae hyn yn ganolog i'r gwaith o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
13. Cafodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban eu creu yn y 1960au yn rhannol oherwydd pryderon cynyddol ynghylch natur gymhleth y llyfr statud. Wrth egluro'r rhesymeg dros greu'r Comisiwn (a thros hyrwyddo'r hyn a ddatblygodd yn Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965), dywedodd Syr Eric Fletcher, Gweinidog heb Bortffolio, wrth Senedd y DU¹:

One of the hallmarks of a civilised society is that its laws should not only be just, but should be up to date, accessible and intelligible. The state of our law today does not satisfy those requirements.
14. Er gwaetha'r bwriadau da hyn, ni chafodd y llyfr statud ei godeiddio. Ni chafodd deddfwriaeth ei chydgrynhoi ychwaith ar yr un raddfa â'r llyfr statud a oedd yn parhau i dyfu'n gyflym. Mewn gwirionedd, mae'r gwaith o ddiwygio'r gyfraith yn mynd rhagddo'n arafach erbyn hyn ac mae'r llyfr statud wedi parhau i dyfu. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd yn hanes Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwrfa a Gweinidogion Cymru fel llywodraeth ond mae 56 o Fesurau wedi cael eu pasio ers 2007 ac mae bron i 4,500 o offerynnau statudol wedi cael eu gwneud ers 1999. Cyfran fach iawn yn unig o'r llyfr statud sy'n cael ei chynrychioli yn y ffigurau hyn, fodd bynnag.
15. Mae Cymdeithas y Gyfraith a Llywodraeth Cymru yn hynod ymwybodol o hyn. Wrth wneud ei argymhellion, sylweddolai'r Comisiwn nad oedd y systemau a fodolai eisoes yn gweithio fel y dylent i ddiogelu'r system o gyfraith statud yn ei chyfanrwydd. Gwyddai hefyd fod y problemau hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru oherwydd ein hanes a natur ein system ddatganoli. Mae

¹ Hansard HC 8 Chwefror 1965 cyfrol 706 cc47–158.

Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn glir mai dim ond drwy ymdrech gynaliadwy dros y tymor hir y gellir datrys y problemau hyn. Mae angen newid ein prosesau deddfu yn barhaol. Dyma pam argymhellodd Comisiwn y Gyfraith fel a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen dreigl o godeiddio (Argymhelliad 14);

Dylai fod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno rhaglen godeiddio, ac adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynnydd y rhaglen yn rheolaidd. (Argymhelliad 15).

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddau argymhelliad.

16. Rydym yn argymhell y dylai'r argymhellion hyn gan Gomisiwn y Gyfraith gael eu gweithredu gan Ran 1 o Fil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau'r dyfodol ddatblygu rhaglenni i wella mynediad at gyfraith Cymru. Mae Pennod 2 o'r papur ymgynghori hwn yn trafod y cynigion yn fanylach.

Pennod 2: Cynigion yn Rhan 1 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)

Dyletswydd i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru

17. Er mwyn llywio'r broses o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, ac yn unol ag adran 1 o'r Bil Drafft, mae'n ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol², Swyddog y Gyfraith ar gyfer Cymru, adolygu cyfraith Cymru. Mae hyn yn debyg i'r rhwymedigaeth ar Gomisiwn y Gyfraith o dan adran 3(1) o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, ac mae'n ategu'r rhwymedigaeth honno (nid yn ei disodli).
18. Os ydyw am fod yn hygyrch, rhaid i gyfraith Cymru fod yn glir ac yn sicr ei heffaith, a rhaid iddi hefyd fod yn hawdd ei defnyddio. Dylai hyn fod yn wir yn achos darpariaethau unigol Deddfau ac Offerynnau Statudol, ond hefyd yn achos Deddfau ac Offerynnau Statudol yn gyfan – yr holl gyfraith mewn maes penodol a'r llyfr statud yn ei gyfanrwydd.
19. Yn draddodiadol, mae llawer iawn o adnodd ac arbenigedd wedi cael eu neilltuo i brosiectau deddfwriaethol penodol yn y DU, ac yn arbennig yng nghyd-destun drafftio a datblygu deddfwriaeth sylfaenol. Ceir dealltwriaeth o bwysigrwydd rheol y gyfraith, a'r angen i sicrhau bod pob cyfraith newydd yn gyfreithiol gywir ac yn ddealladwy. Fodd bynnag, mae llai o bwys yn cael ei roi ar gyfraith statud a'r effaith hirdymor y mae pob newid yn y gyfraith yn ei chael ar y llyfr statud yn fwy cyffredinol. Fel nodwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Seneddol y DU mewn adroddiad a gomisiynwyd fel rhan o'i fenter "cyfraith dda"³:

...pieces of legislation need to be regarded not just as documents in their own right, but as parts of a larger mosaic of legislation. It is the aggregate to which the user will have access to.

20. Rhagwelwyd yn yr adroddiad hefyd y bydd rhwymedigaeth y Cwnsler Cyffredinol i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid cynnig deddfwriaeth newydd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid ystyried sut y gallai'r dull o fynd ati i ddeddfu effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn golygu y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn ffordd arbennig mewn unrhyw un achos penodol.

² Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn aelod o Lywodraeth Cymru, wedi'i benodi gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad Prif Weinidog Cymru o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru (gweler adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

³ Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol (2013) 'When laws become too complex – review by the Office of the Parliamentary Counsel into the causes of complex legislation'.

21. Bydd angen ymdrech ar y cyd i ddatrys y mater hwn, yn y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r tu hwnt, felly rydym yn cynnig y dylai'r Cwnsler Cyffredinol gael y cyfrifoldeb dros oruchwylio hygyrchedd cyfraith Cymru yn gyfan. Byddai hyn yn golygu bod modd rhoi ffocws hirdymor ar yr hyn a fydd yn ymdrech hirdymor i roi trefn ar gyfraith Cymru a'i gwneud yn fwy hygyrch.

Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

22. Mae adran 2 o'r Bil Drafft yn cynnig, ar gyfer pob tymor Cynulliad⁴, bod rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu a gweithredu rhaglen o weithgarwch wedi'i chynllunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
23. Mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fydd union gynnwys y rhaglen. Fodd bynnag, mae'n ofynnol o dan y Bil i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cadw cyfraith sydd wedi'i chodeiddio a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cydgrynhoi'r gyfraith

24. Mae'n hanfodol cynnal ymarfer blaengar a threfnus o gydgrynhoi'r gyfraith dros y tymor hir er mwyn diweddarau'r gyfraith bresennol yn ddwyieithog mewn Deddfau Cynulliad. Mae cydgrynhoi'r gyfraith yn gyffredinol yn golygu dod â'r holl gyfraith mewn maes penodol ynghyd, dod o hyd i ffyrdd gwell o gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth wedi iddi gael ei deddfu a diweddarau'r iaith, yr arddull ddrafftio a'r strwythur. Golyga hyn mai dim ond i raddau bach, os o gwbl, o ran ei sylwedd, y caiff y gyfraith sydd wedi'i chydgrynhoi ei diwygio. Yng Nghymru mae yna agwedd arall eto i'w hystyried wrth gydgrynhoi'r gyfraith. Rhaid cadw mewn cof mai ailddeddfu cyfreithiau a wnaed yn flaenorol gan Senedd y DU a wneir yn bennaf wrth gydgrynhoi'r gyfraith. Mae manteision i'r broses hon, felly, gan fod y gyfraith yn cael ei diffinio'n glir fel cyfraith Cymru fel y byddai'n cael ei gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y ddwy iaith swyddogol. Byddai hefyd o gymorth gyda'r broses gymhleth o ddeall pa rai o bynciau'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Codeiddio'r gyfraith

25. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer codeiddio'r gyfraith yn golygu rhoi strwythur a threfn ar y llyfr statud, a threfnu a chyhoeddi'r gyfraith drwy gyfeirio at ei chynnwys yn hytrach na phryd y cafodd ei gwneud yn unig. Yn

⁴ Tymor Cynulliad yw'r cyfnod ar ôl ffurfio Cynulliad yn dilyn etholiad cyffredinol yng Nghymru hyd at ei diddymu cyn yr etholiad cyffredinol dilynol.

gyffredinol, byddai "Cod" o gyfraith Cymru yn cael ei choladu unwaith y byddai'r holl gyfraith gymwys ar bwnc⁵ penodol wedi ei chydgrynhoi, neu wedi ei chreu o'r newydd yn dilyn diwygio helaeth. Bydd yr hierarchaeth bresennol o fewn yr offerynnau deddfwriaethol a'r ffin rhyngddynt (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a chanllawiau neu ddogfennau eraill tebyg a wneir o dan y Deddfau neu'r is-ddeddfwriaeth) yn parhau. Bydd yr holl ddeddfwriaeth o fewn Cod yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26. Felly, nid un ddogfen fyddai cod (yn gyffredinol) ond yn hytrach gasgliad o ddeddfiadau o dan un teitl sy'n eu dwyn ynghyd. Dylai'r dogfennau sy'n rhan o'r Cod fod ar gael i gyd gyda'i gilydd. Ni fwriedir i'r Cod fod yn offeryn cyfreithiol ynddo'i hun, ond yn hytrach yn ddull o goladu'r gyfraith yn fwy effeithiol.
27. Gall Cod gynnwys un neu ragor o "brif" Ddeddfau sy'n pennu'r gyfraith sylfaenol ar un neu ragor o rannau cydlynol o gynnwys y Cod (neu, yn achos Cod sydd lunio o un brif Ddeddf, y cyfan ohono). Felly, mae'n debygol y bydd Cod mawr ar addysg, efallai, yn debygol o gynnwys tair neu bedair prif Ddeddf (er enghraifft, ar Ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch), llawer o setiau o reoliadau yn ogystal â lled-ddeddfwriaeth (neu gyfraith 'feddal'). Yr hyn sy'n allweddol, fodd bynnag, yw y bydd llawer llai o ddogfennau nag a geir heddiw a byddant yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd (gyda'r berthynas rhyngddynt yn cael ei hegluro).
28. Yn y dyfodol, felly, wrth gydgrynhoi neu wneud cyfraith newydd, dylai fod gan Lywodraeth Cymru gynllun cyffredinol ar gyfer strwythur terfynol llyfr statud Cymreig a fydd wedi'i threfnu yn ôl codau ar bynciau penodol.
29. Ystyr "codeiddio'r gyfraith", yn gyffredinol, yn y testun hwn yw codeiddio'r gyfraith statud. Gall bil sy'n codeiddio cyfraith statud gynnwys effaith cyfraith achos ar ystyr y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio, neu reolau'r gyfraith gyffredin sydd ag iddynt gysylltiad agos â'r ddeddfwriaeth honno. Nid ydym, fodd bynnag, yn bwriadu codeiddio'r gyfraith gyffredin yn helaeth.
30. I sicrhau bod cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yn llwyddiant, mae'n bwysig bod gwaith yn parhau ar y ddwy agwedd hyn dros y tymor hir ac yn cael eu derbyn fel rhan o ddiwylliant deddfu yng Nghymru. Golyga hyn bod rhaid derbyn bod y gyfraith yn esblygu'n barhaus. Rhaid felly ailystyried y gyfraith o'i bryd i'w gilydd, hyd yn oed wedi iddi gael ei chydgrynhoi, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n drefnus ac yn hygyrch. Mae hefyd yn golygu bod rhaid cynnal strwythur - nid cynnwys, a fydd yn newid o hyd yn unol â pholisi a dymuniadau

⁵ Yn amodol ar gyfyngiadau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac ar yr arferion gwaith y byddwn yn eu datblygu i ymdrin â darpariaethau a allai berthyn i fwy nag un pwnc.

gwleidyddol - y gyfraith. Ar ôl cydgrynhai a chodeiddio, felly, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwyro oddi wrth y strwythur newydd.

Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

31. Ym 1999, cafodd cyfreithiau eu gwneud yn y Gymraeg am y tro cyntaf ers canrifoedd. Mae 18 mlynedd wedi mynd heibio erbyn hyn ac, wrth gwrs, mae mwy a mwy o gyfreithiau wedi cael eu gwneud yn ddwyieithog. Megis dechrau yr ydym, fodd bynnag, ac mae cyfran fawr o'r cyfreithiau sy'n dod o dan gymhwysedd wedi'i ddatganoli yn dal i fod yn Saesneg yn unig. Mae cryn ymdrech yn cael ei gwneud i gynhyrchu cyfraith yn ddwyieithog ac er bod tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r rheini sy'n cael mynediad at y gyfraith⁶ yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen gwneud mwy i helpu'r rheini sydd am ddefnyddio'r iaith.
32. Un o ofynion eraill y rhaglen, felly, fydd sicrhau bod camau'n cael eu cymryd, wrth wella hygyrchedd y gyfraith, i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gyfraith, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac yn fwy cyffredinol. Elfen hollbwysig yn hyn o beth fydd cydgrynhai'r gyfraith yn ddwyieithog, fel bod llawer mwy o'r gyfraith y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdani yn cael ei gwneud yn Gymraeg. Yn yr un modd, bydd gwella trefniadau cyhoeddi a darparu mwy o sylwebaeth ar y gyfraith yn y ddwy iaith yn golygu y bydd hi'n haws defnyddio'r Gymraeg yn y gyfraith ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy cyffredinol yng Nghymru. Gallai rhaglenni yn y dyfodol gynnwys prosiectau i lunio mwy o eirfaon cyfreithiol a chynlluniau eraill i ddatblygu terminoleg wedi'i safoni, lle bo hynny'n ddefnyddiol.

Materion eraill a allai fod yn rhan o raglen

33. Mae adran 2 o'r Bil Drafft hefyd yn rhag-weld y bydd pob rhaglen yn cynnwys cynigion i hyrwyddo cyfraith Cymru drwy, er enghraifft, godi ymwybyddiaeth o newidiadau sylweddol yn y gyfraith neu fodolaeth cyfraith Cymru yn fwy cyffredinol.
34. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwefan o'r enw Cyfraith Cymru/Law Wales⁷, sy'n rhoi gwybodaeth am drefniadau cyfansoddiadol Cymru a'r gyfraith a wneir yng Nghymru. Mae'r wefan hefyd yn darparu dolenni at beth o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk yr Archifau Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu'r wefan

⁶ Yn ôl ystadegau a ddarparwyd yn 2015 gan yr Archifau Gwladol i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol *Gwneud Cyfreithiau yng Nghymru*, roedd 19% o'r ymweliadau at Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad ar wefan legislation.gov.uk yn rhai at y testunau Cymraeg.

⁷ Ar gael yn: <http://law.gov.wales/?lang=cy>

hon ymhellach, a'r bwriad yn y tymor hir yw defnyddio'r wefan yn gyfrwng i ddangos Codau cyfraith Cymru. Gallai rhaglenni yn y dyfodol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gynnwys prosiectau i sicrhau bod mwy o ddeunydd esboniadol ar gael drwy wefan Cyfraith Cymru, ac i gydweithio â'r Archifau Gwladol i wneud yn siŵr bod yr wybodaeth a gyhoeddir ganddynt ar gael yn ddwyieithog a'i bod yn gyfredol ⁸.

35. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol gynnwys gweithgareddau eraill hefyd mewn rhaglen os byddant yn ystyried y bydd cyfraith Cymru yn fwy hygyrch o ganlyniad. Caiff hyn gynnwys gwneud trefniadau gyda Chomisiwn y Gyfraith, fel ag y gwneir ar hyn o bryd, i fynd ar drywydd prosiectau diwygio a fydd yn gwella hygyrchedd.

Paratoi rhaglen

36. Fel y nodwyd uchod, rhaid i raglen gael ei chynllunio ar gyfer pob tymor Cynulliad i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a rhaid gosod y rhaglen honno gerbron y Cynulliad o fewn chwe mis i benodi'r Prif Weinidog yn dilyn etholiad cyffredinol. Mae hyn yn sicrhau bod pob llywodraeth yn atebol am yr hyn a gyflawnwyd gan ei rhaglen yn ystod tymor y Cynulliad.
37. Er nad yw'n ofynnol i lywodraeth newydd etifeddu rhaglen y llywodraeth flaenorol ar ddechrau tymor Cynulliad, yn ymarferol mae bron yn sicr y bydd prosiectau un rhaglen yn parhau nes y bydd y rhaglen nesaf wedi'i pharatoi a'i gosod. Nid oes dim byd yn rhwystro prosiectau rhaglen gynharach rhag ymddangos mewn rhaglen ddilynol os bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau prosiect o'r fath yn galw am hynny. Mae hyn yn bwysig, oherwydd rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r prosiectau unigol yn rhai hirdymor eu natur ac y gallent gymryd mwy nag un tymor Cynulliad i'w cwblhau.
38. Wrth baratoi rhaglen bydd yn bwysig ceisio barn y cyhoedd. Prif ddiben ymarfer o'r fath fyddai sicrhau y canolbwyntir ar y meysydd hynny o'r gyfraith lle mae'r mwyaf o angen cydgrynhoi ac sy'n cael y mwyaf o effaith ar ddefnyddwyr (bod yn gyrrff cyhoeddus, busnesau neu ddinasyddion). Rhagwelir y bydd rhaglen ddrafft yn cael ei pharatoi ac y cynhelir ymgynghoriad arni. Yna bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ei chymeradwyo a bydd yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
39. Er mai mater i'r Llywodraeth ar y pryd fydd y dull o fynd ati i ymgynghori, mae'n ddiddorol gweld yr ymgynghoriad⁹ diweddar a gynhaliwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Seland Newydd, ar ran y Twrnai Cyffredinol,

⁸ Yr Archifau Gwladol fydd yn dal yn bennaf cyfrifol am gyhoeddi'r ddeddfwriaeth o ddydd i ddydd.

⁹ Ar gael yn: <http://www.pco.govt.nz/revision-consultation-2018/>

ynghylch rhaglen ddiwygio arfaethedig ar gyfer y Senedd newydd ('diwygio' - 'revision') yw'r term a ddefnyddir yn Seland Newydd wrth sôn am gydgrynhoi'r gyfraith). Roedd yr ymgynghoriad hwn yn nodi'r prosiectau a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod y rhaglen, ynghyd â'r sail ar gyfer cynnig y prosiectau.

40. Mae Adran 2(7) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi'r rhaglen ar waith. Gallai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno'r adroddiad trwy wneud datganiad gerbron y Cynulliad, a fyddai'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i ofyn cwestiynau iddo am yr adroddiad.
41. Mae'n bosibl y bydd angen i raglen sy'n cael ei phennu ar ddechrau tymor y Cynulliad gael ei newid yn ystod y tymor hwnnw. Gellid ychwanegu prosiectau newydd, neu efallai ddileu prosiectau os gwelir nad ydynt yn addas i'w cydgrynhoi yn sgil diwygio deddfwriaethol cysylltiedig. Mae Adran 2(6) o'r Bil Drafft yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio rhaglen yn ystod tymor y Cynulliad, ond bod rhaid gosod y rhaglen ddiwygiedig gerbron y Cynulliad a pharatoi adroddiad arall arni.

Yr angen i ddeddfu

42. Rydym yn ymwybodol bod elfen o baradocs ynghlwm wrth dhy deddfu ar gyfer gorfodi dyletswydd i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Un dull o sicrhau bod cyfraith yn fwy hygyrch yw lleihau'r gyfraith honno ac, mewn egwyddor, ni ddylem greu cyfraith newydd lle nad oes ei hangen.
43. Ysbrydolwyd y cysyniad o orfodi dyletswydd ar y math hwn o lywodraeth gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yn rhannol. Roedd y casgliadau y daethpwyd iddynt yn fwy diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith Seland Newydd, a fu'n ystyried materion tebyg o dan stiwardiaeth Syr Geoffrey Palmer CF, cyfreithiwr cyfansoddiadol a chyn-Brif Weinidog a Chwnsler Cyffredinol, hefyd yn berthnasol. Yn yr adroddiad *Presentation of New Zealand Statute Law*, a gyhoeddwyd yn 2009, gan weithio ar y cyd â Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol, daeth Comisiwn y Gyfraith Seland Newydd i'r casgliad:

...that to make a real difference to the accessibility of the New Zealand statute book it is essential that a systemic programme of revision of the statute book be undertaken.

44. Aeth y Comisiwn hwn yn ei flaen i argymhell y dylai fod rhwymedigaeth ar y Cwnsler Cyffredinol i roi ar waith raglen hirdymor ar gyfer adolygu (neu gydgrynhoi) y gyfraith. Cafodd hyn ei weithredu yn y pen draw gan adran 30 o Ddeddf Deddfwriaeth 2012. Cymerwyd y cam hwn yn Seland Newydd am fod eu llyfr statud wedi mynd yn fawr, yn gymhleth ac yn anhylaw, o'i gymharu â

Ilyfrau statud awdurdodaethau eraill y Gymanwlad (neu yn wir yr awdurdodaethau hynny sydd â thraddodiad hir o godeiddio eu cyfraith). Yng Nghanada ac Awstralia, er enghraifft, ers iddynt etifeddu deddfwriaeth Senedd y DU fel gwladwriaethau dominiwn, mae pob awdurdodaeth, i wahanol raddau, wedi rhesymoli ei ddeddfwriaeth ac wedi cynnal proses gydgrynhoi helaeth a systematig o bryd i'w gilydd.

45. Roedd Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn ymwybodol nad oedd y systemau a fodolai eisoes yn y DU ar gyfer hwyluso neu gymell gwaith i symleiddio'r llyfr statud wedi bod yn llwyddiannus. Gwyddai hefyd, heb os, na fyddai modd manteisio ar yr adnodd cyfyngedig a oedd ar gael i'r Comisiwn ei hun i gydgrynhoi'r gyfraith ar raddfa helaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd angen agwedd wahanol, felly. O ganlyniad, penderfynwyd y byddai rhwymedigaeth yn cael ei gosod ar bob Llywodraeth Cymru i godeiddio'r gyfraith.
46. Bydd y broses o gynnwys cyfraith Ewropeaidd yn y gyfraith ddomestig gyda'r newidiadau angenrheidiol yn galw am lawer o adnoddau ac, am resymau amlwg, bydd y gwaith hwn yn cael blaenoriaeth. Bydd rhaglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio deddfwriaethol hefyd, yn amlwg, yn cael ei rhoi ar waith cyn bwrw ati i wella mynediad at gyfraith Cymru. Bydd y dasg o gynnal ffocws hirdymor ar raglenni i wella mynediad yn un anodd, felly. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir y bydd buddsoddi yn llyfr statud Cymru nawr yn arwain at fanteision cymdeithasol ac arbedion effeithlonrwydd mawr ymhen amser. Gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch yw'r peth iawn i'w wneud, ond mae rhesymeg economaidd ac ariannol clir dros wneud hynny hefyd. Mae'n rhywbeth sy'n rhaid ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod angen gorfodi rhwymedigaeth statudol ar lywodraethau'r dyfodol yng Nghymru er mwyn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru?

Cwestiwn 2: Os ydych, a ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Bil Drafft i orfodi rhwymedigaeth o'r fath?

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

RHAN 2: DEHONGLI CYFRAITH CYMRU YN STATUDOL

47. Yn y Rhan hon o'r papur rydym yn nodi'r cynigion a gynhwysir yn Rhan 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru), sy'n ymwneud â dehongli statudol.
48. Dehongli statudol yw'r broses o benderfynu ystyr ac effaith deddfwriaeth, a sut y mae'n gweithredu – ac mae'n gallu bod yn broses gymhleth. Mae deddfau sy'n disgrifio rheolau ynghylch sut y bwriedir dehongli cyfreithiau yn elfen nodweddiadol ar awdurdodaethau cyfreithiol ar draws byd y gyfraith gyffredin. Eu diben yw cwtogi ar ddeddfwriaeth a'i symleiddio a hybu cysondeb o ran ei hiaith, ei ffuriant a'i gweithrediad. Ar hyn o bryd, mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru'n cael ei dehongli drwy gyfeirio at un o Ddeddfau Senedd y DU, sef Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978).
49. Yn y Rhan hon, mae Pennod 1 yn esbonio paham y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried deddfu i Gymru, ac yn nodi'r ddeddfwriaeth y byddai Deddf ddehongli newydd i Gymru'n gymwys iddi. Mae Pennod 2 yn darparu esboniad adran wrth adran o Ran 2 o'r Bil, ac yn gofyn nifer o gwestiynau manwl am adrannau penodol.

Pennod 1: Cymhwyso Rhan 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)

Y Cefndir

50. Ers 1850 pan gafodd y Ddeddf Ddehongli gyntaf ei phasio gan Senedd y DU¹⁰, mae bron y cyfan, os nad pob un o'r deddfwrfeydd wedi gwneud darpariaeth statudol ar sut y bwriedir i'w deddfwriaeth gael ei dehongli. Ceir, felly, Ddeddf o'r natur hon sy'n gymwys i ddeddfwriaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er enghraifft, ac ar lefel ffederal a gwladwriaeth neu lefel daleithiol yn Awstralia a Chanada. I'r gwrthwyneb, nid oes gan Gymru ei Deddf ei hun.
51. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd yn 2017¹¹, mae Deddf 1978 bron yn 40 mlwydd oed ac nid yw mor glir nac mor hygyrch ag y gallai fod. Mae rhai o'r darpariaethau yn amwys neu wedi achosi problemau yn ymarferol, gellir dadlau bod rhai ohonynt yn ddiangen, ac mae rhai ohonynt, yn syml, wedi dyddio. Byddai o fudd felly ei moderneiddio.

¹⁰ "An Act for shortening the language used in Acts of Parliament", a elwir hefyd yn Ddeddf yr Arglwydd Brougham.

¹¹ Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru*.

52. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun Cymru gan fod y Ddeddf yn rhagddyddio'r setliad datganoli i Gymru, felly nid yw rhai o'r rheolau a'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn berthnasol mewn perthynas â chyfraith sy'n gymwys i Gymru yn unig (er enghraifft, nifer o'r geiriau a'r termau a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, megis 'London borough'). Nid yw sawl darpariaeth yn y Ddeddf yn gymwys o gwbl mewn perthynas â deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol.
53. Mae'n destun pryder hefyd fod Deddf 1978, fel un o Ddeddfau Senedd y DU, wedi ei deddfu yn Saesneg yn unig. Er iddi gael ei diwygio yn 2007 er mwyn bod yn gymwys i Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau a'r Mesurau hynny, nid oes unrhyw destun Cymraeg o Ddeddf 1978. Mae diffyg Deddf ddehongli ddwyieithog yn rhwystr i'r rhai sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith. Y rheswm dros hyn yw:
- nad yw'r rheolau craidd ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ar gael yn Gymraeg, ac
 - yn niffyg diffiniadau Cymraeg cyfatebol o'r geiriau a'r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, er mwyn deall ystyr gyfreithiol gywir rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn deddfwriaeth, mae gofyn croesgyfeirio at destun Saesneg yr un ddeddfwriaeth, ac yna droi at y diffiniad perthnasol yn Neddf 1978; mewn gwirionedd, nid oes awdurdod statudol clir ar gyfer ystyr gyfreithiol y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg hyn.
54. Tynnwyd sylw at y diffyg hwn gan Gomisiwn y Gyfraith¹², Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol¹³ a rhanddeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru¹⁴.
55. Ymhellach, yn unol ag adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal mewn perthynas â Deddfau a Mesurau'r Cynulliad a deddfwriaeth yng Nghymru sy'n cael ei deddfu neu'i gwneud yn Gymraeg a Saesneg. Wrth ymateb i ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod diffyg darpariaethau dwyieithog ar gyfer dehongli deddfwriaeth yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Roedd rhanddeiliaid yn credu'n gryf y dylai camau gael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

¹² Comisiwn y Gyfraith (2016) *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*.

¹³ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad) (2015) *Deddfu yng Nghymru*.

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru*.

56. Mae Llywodraeth Cymru felly'n gofyn barn am gynigion manwl ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn statudol, ac fe gynhwysir hyn yn Rhan 2 o'r Bil Drafft.

Cymhwyso'r Rhan hon o'r Bil

Ei chymhwyso i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth

57. Cwestiwn allweddol wrth baratoi'r Bil Drafft oedd penderfynu pa ddeddfwriaeth (sy'n gymwys yng Nghymru) y dylai'r Bil fod yn gymwys iddi. Gellir defnyddio ystod o ddulliau gweithredu, pob un â'i gryfderau a'i wendidau ei hun. Wrth ystyried sut y dylid cymhwyso Rhan 2 o'r Bil, rhoddwyd sylw i ganlyniadau ymgynghoriad polisi 2017 ac i'r materion canlynol –
- a. yr angen i'r darllenydd allu penderfynu pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth y mae'n ei darllen (am ei bod yn anochel y bydd Deddf 1978 yn parhau i fod ar waith mewn perthynas â rhai o'r cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru; yn fwyaf arbennig, yr holl gyfreithiau a geir mewn Deddfau gan Senedd y DU);
 - b. yr angen i fynd i'r afael â diffyg rheolau dehongli dwyieithog sy'n gymwys i'r ystod eang o ddeddfwriaeth ddwyieithog sydd mewn grym ar hyn o bryd (ac, yn arbennig, absenoldeb rheolau sy'n diffinio geiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg sy'n cyfateb i'r rheolau presennol yn y Saesneg);
 - c. yr awydd i'r Bil ei hun fod mor syml â phosibl i'w lywio, ei ddeall a'i gymhwyso;
 - d. yr angen i leihau (ac yn ddelfrydol osgoi) creu unrhyw fath o dyndra gweithredol rhwng y Bil a Deddf 1978;
 - e. yr awydd i greu Bil sy'n gweithio orau i'r llyfr statud yn y dyfodol, gan nodi y bydd y corff o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol a chan Weinidogion Cymru yn parhau i dyfu;
 - f. y syniad y dylai Deddfau dehongli fodoli i bob pwrpas yn y cefndir, fel rhan o beirianwaith y gyfraith na fydd angen i'r darllenydd cyffredin droi ato yn rheolaidd.
58. Yng ngoleuni'r materion uchod, mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r mathau canlynol o ddeddfwriaeth –
- a. Deddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw;

b. is-ddeddfwriaeth¹⁵ sydd—

- i. yn cael ei gwneud ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw,
- ii. yn cael ei gwneud o dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf neu'r Mesur y Cydsyniad Brenhinol neu gymeradwyaeth), a
- iii. yn cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru neu unrhyw berson arall sydd â phŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir gan Ddeddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad;

c. yr is-ddeddfwriaeth sydd—

- i. yn cael ei gwneud ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw,
- ii. yn cael ei gwneud o dan Ddeddf gan Senedd y DU (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf honno'r Cydsyniad Brenhinol), a
- iii. yn cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru (ddim yn gweithredu ar y cyd ag eraill).

Yn y Bil, cyfeirir at y ddau fath o is-ddeddfwriaeth fel 'is-offerynnau Cymreig'¹⁶.

59. Mae hyn yn golygu na fydd y Bil yn gymwys, ac y bydd Deddf 1978 yn parhau'n gymwys, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r gyfraith yng Nghymru, i —

- a. Deddfau'r Cynulliad a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym;
- b. pob un o Fesurau'r Cynulliad;
- c. yr holl is-ddeddfwriaeth (ni waeth pwy a'i gwnaeth na pha fath o Ddeddf neu Fesur y cafodd ei gwneud o dani neu o dano) a wnaed cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym;
- d. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, gan rywun heblaw Gweinidogion Cymru (er enghraifft, awdurdod lleol neu Weinidog y Goron);
- e. is-ddeddfwriaeth a wneir ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym gan Weinidogion Cymru wrth arfer pwerau a ddelir ar y cyd ag eraill e.e. Gweinidog y Goron (y cyfeirir ati yn aml fel cyd-offeryn statudol)¹⁷.

¹⁵ Diffinnir 'is-ddeddfwriaeth' yn adran 4 o'r Bil.

¹⁶ Gweler adran 3.

60. Er bod y rhestr hon yn ymddangos yn gymhleth, prif fantais y dull gweithredu a arddelir yn y Bil yw'r symrlwydd cymharol y mae'n ei roi i wyneb y Bil. Yn wir, mae hefyd yn dilyn y dull gweithredu a ddefnyddir yn yr Alban yn Neddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010, sy'n gymwys yn unig i ddeddfwriaeth sydd wedi'i phasio neu'i gwneud ar ôl iddi ddod i rym. Cawn ar ddeall nad yw hyn wedi arwain at unrhyw anawsterau yn ymarferol yn yr Alban.
61. Bydd y dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n darllen unrhyw Ddeddf neu is-ddeddfwriaeth gan y Cynulliad fod yn ymwybodol o arwyddocâd *pryd* y cafodd y ddeddfwriaeth y maent yn ei darllen y Cydsyniad Brenhinol neu pryd y cafodd ei gwneud. Er hynny, yn achos unrhyw Ddeddf sy'n deillio o'r Bil, y bwriad fyddai i Ran 2 ddod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ar ôl iddi gael ei phasio. Bydd hyn yn golygu y bydd dynodi'r flwyddyn a gynhwysir yn enwau byr Deddfau a Mesurau a theitlau is-ddeddfwriaeth yn ddigon, yn ei hanfod, i nodi ai Deddf 1978 ynteu'r Bil sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth honno.
62. Er bod y dull gweithredu hwn yn golygu y bydd dwy Ddeddf ddehongli ar waith mewn perthynas â deddfwriaeth yng Nghymru, roedd hynny bob amser yn anochel i ryw raddau (fel sy'n wir yn yr Alban, bydd Deddf 1978 yn parhau i gael rhyw effaith o leiaf mewn perthynas â'r gyfraith yng Nghymru).
63. Cafodd yr angen i'w gwneud yn glir i ddarllenwyr pa Ddeddf sy'n gymwys ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf ac er bod consensws y dylid gwneud rhywbeth am hyn, ni chafwyd unrhyw gonsensws o ran y ffordd orau i gynorthwyo'r darllenydd yn hyn o beth. Mae ffyrdd amrywiol o wneud hyn, gan gynnwys yn y deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth (er enghraifft, y Nodiadau Esboniadol a gyhoeddir gyda Deddf). Neu gellid cynnwys "cyfeirbost" at y Ddeddf ddehongli berthnasol o fewn y ddeddfwriaeth; er enghraifft drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i ymdrin â'r mater, a gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth gyfeirbost yn hollol angenrheidiol, ac at ei gilydd mae'n well osgoi cynnwys darpariaeth ddiangen mewn deddfwriaeth. Mae'n bosibl i ddarpariaethau cyfeirbost o'r math hwn fod braidd yn gymhleth, a gallent arwain at broblemau yn y tymor hir (er enghraifft, pe na bai'r ddarpariaeth gyfeirbost wedi'i chynnwys mewn Deddf neu is-ddeddfwriaeth am ba reswm bynnag).

¹⁷ Ystyr hyn yw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bŵer neu ddyletswydd sy'n darparu'n unswydd y ceir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd gan Weinidogion Cymru ar y cyd ag eraill neu fod rhaid i hynny ddigwydd. Lle bo offeryn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidog y Goron, ond ddim wrth arfer pŵer a ddelir ar y cyd (y cyfeirir ati yn aml fel deddfwriaeth gyfansawdd), gallai fod angen i'r ddeddfwriaeth ei hun fynd i'r afael â chymhwyso'r Bil.

64. Byddwn yn parhau i archwilio dulliau priodol o'i gwneud yn glir i'r darlennydd pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i bob deddfwriaeth, a byddem yn croesawu cael barn ar hyn yn ystod yr ymgynghoriad.
65. Ni fydd y Bil yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU heblaw lle gwneir y ddeddfwriaeth honno gan Weinidogion Cymru (er y bydd yn gymwys i'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi). Cyn belled â bod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn y cwestiwn, mae hyn yn golygu y bydd is-ddeddfwriaeth a wneir gan amrywiaeth o gyrrff cyhoeddus a phersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn dal yn ddarostyngedig i Ddeddf 1978¹⁸.
66. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai'r Bil yn gymwys i orchymyn a wneir gan gyngor sir yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ond y byddai Deddf 1978 yn gymwys i Orchymyn a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Er nad yw'r canlyniad hwn yn ddelfrydol o bosibl, y pryder oedd y gallai unrhyw ymgais i ddatrys y mater hwn arwain at beidio â chynnwys digon o ddeddfwriaeth neu gynnwys gormod o ddeddfwriaeth, mewn geiriau eraill hepgor deddfwriaeth a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r Bil neu gynnwys deddfwriaeth na ddylai fod yn ddarostyngedig i'r Bil. Yn arbennig, roeddem am osgoi cynnwys cyrrff a deddfwriaeth lle nad yw'r berthynas â Chymru'n glir, er enghraifft, cyrrff sy'n arfer swyddogaethau trawsffiniol. Bydd y dull gweithredu a ddefnyddir yn y Bil Drafft yn osgoi unrhyw amwysedd yn ymarferol, gan dynnu llinell glir rhwng cymhwyso'r Bil a Deddf 1978 yn y maes hwn. Dylid cofio hefyd mai is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yw'r math mwyaf cyffredin o ddeddfwriaeth o'r math hwn.
67. Y maen tramgwydd mwyaf i'n dull gweithredu arfaethedig yw parhau â'r arfer o gymhwyso Deddf 1978 uniaith Saesneg i'r ddeddfwriaeth ddwyieithog bresennol. Cydnabu llawer o'r ymatebwyr i ymgynghoriad polisi 2017 fod hwn yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef er nad oedd tystiolaeth bod unrhyw faterion ymarferol yn deillio o'r sefyllfa hon. Gallai bodolaeth y Bil, sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n cyfateb i'r darpariaethau yn Neddf 1978 (er nad ydynt bob amser yn cyfateb iddynt o ran eu sylwedd), helpu i leihau effaith y mater hwn yn ymarferol – ond fel mater o gyfraith ni fydd y Bil yn gymwys yn ôl-weithredol i'r ddeddfwriaeth hon.
68. Yn yr ymatebion i ymgynghoriad polisi 2017 nodwyd diffyg fersiwn Gymraeg gyfatebol i Atodlen 1 i Ddeddf 1978 fel testun pryder. Mae'r Atodlen¹⁹ honno'n

¹⁸ Mae cyrrff o'r fath yn cynnwys cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau porthladdoedd a Cymwysterau Cymru.

¹⁹ Mae Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud darpariaeth gyfatebol, fel y trafodir isod.

nodi diffiniadau o ystod o eiriau ac ymadroddion sy'n digwydd mewn deddfwriaeth Saesneg. Mae i lawer, os nad pob un o'r geiriau a'r ymadroddion hyn, ystyr gyfatebol yn Gymraeg lle maent yn ymddangos mewn deddfwriaeth ddwyieithog, ond ni ddiffinnir y term Cymraeg cyfatebol yn yr Atodlen (nac yn unman arall). Cynigiodd ymgynghoriad polisi 2017 y byddai cyfieithiad o Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn ateb posibl. Mae amrywiaeth o ddulliau deddfwriaethol o sefydlu darpariaeth gyfatebol a chanddi rym cyfreithiol yn y Gymraeg, ac er y byddai'r Bil yn cynnig ffordd o ymdrin â'r mater hwn, mae nifer o resymau technegol (megis y ffaith fod Deddf 1978 yn rhychwantu'r Deyrnas Unedig, ond na fyddai unrhyw ddiwygiad a wneid i'r Ddeddf honno gan y Bil ddim ond yn rhychwantu Cymru a Lloegr²⁰) yn awgrymu y gallai datrysiadau eraill fod yn well.

69. Rydym yn bwriadu darparu ateb i'r mater hwn fel rhan o'r pecyn diwygio sy'n cael ei yrru gan y Bil, a byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r ffordd orau o fynd ati. Yn y cyfamser, rydym wedi paratoi cyfieithiad o'r geiriau a'r ymadroddion yn Atodlen 1. Mae copi ar gael ar wefan yr ymgynghoriad, ac fe groesewir sylwadau ar hyn.

Cymhwyso i weithredoedd, dogfennau ac offerynnau eraill

70. Mae adran 23(3) o Ddeddf 1978 yn cymhwyso tair darpariaeth yn y Ddeddf honno i weithredoedd, dogfennau ac offerynnau eraill. Y darpariaethau hyn yw adran 9 (cyfnodau amser; gweler adran 12 o'r Bil Drafft), adran 17(2) (ailddeddfu; gweler adran 33(1) o'r Bil) ac adran 19(1) (argraffiadau o Ddeddfau; gweler adrannau 24 a 25 o'r Bil Drafft). Oherwydd yr arfer barhaus o gymhwyso adrannau 9 a 19(1) o Ddeddf 1978 i weithredoedd etc, nid oes angen cymhwyso'r adrannau cyfatebol yn y Bil. Er hynny, mae angen cymhwyso adran 33(1) o'r Bil; bydd hyn yn golygu y bydd y rheol yn isadran (1) yn gweithredu ar gyfeiriadau mewn gweithredoedd, dogfennau ac offerynnau eraill at deddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi ac sydd wedi'i diddymu a'i hailddeddfu.

Dull gweithredu amgen o ran cymhwyso'r Bil Drafft

71. Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi Bil Drafft sy'n gymwys i –
- a. holl Ddeddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad (pryd bynnag y'u gwnaed),

²⁰ Mae pryderon tebyg yn codi mewn perthynas ag unrhyw gamau i ddiwygio Deddf 1978 drwy'r Bil, gan gynnwys y gwelliannau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 i'r Bil. Fodd bynnag, mae gwelliannau o'r math a nodir yn Atodlen 2 yn elfen hanfodol o greu Deddf ddehongli newydd i Gymru. O'r herwydd, byddwn yn ystyried y ffordd orau o wneud y gwelliannau angenrheidiol i Ddeddf 1978.

- b. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau a'r Mesurau hynny (pryd bynnag y'u gwnaed, ac ni waeth pwy a wnaeth y ddeddfwriaeth), a
- c. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru (ddim yn gweithredu ar y cyd ag eraill) o dan Ddeddfau gan Senedd y DU (pryd bynnag y'u gwnaed).

72. Roedd dwy brif fantais i'r model cymhwysio hwn –

- a. Roedd yn datrys mater dwyieithrwydd, gan y byddai bron²¹ pob darn o ddeddfwriaeth sydd, yn ôl ei natur, yn bodoli yn Gymraeg a Saesneg, yn ddarostyngedig i'r Bil, a
- b. mae modd mynegi natur a graddfa cymhwysio'r Bil yn syml ac mae'n ddealladwy – yn fras, os yw'n cael ei wneud neu os cafodd ei wneud yng Nghymru, wedyn mae'r Bil yn gymwys.

73. Er hynny, roedd nifer o broblemau gyda'r dull gweithredu hwn–

- a. bydd deddfwriaeth a wnaed cyn i'r Bil ddod i rym wedi'i gwneud gyda'r bwriad bod y rheolau a'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn gymwys iddi – lle mae'r Bil yn gwneud mwy nag atgynhyrchu effeithiau Deddf 1978, mae hyn yn golygu na fyddai modd cymhwysio unrhyw newidiadau yn y gyfraith i ddeddfwriaeth bresennol;
- b. am y byddai angen gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r achosion hynny lle na allai'r Bil wneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol, byddai'r Bil yn hwy ac yn fwy cymhleth²²;
- c. byddai nifer o broblemau technegol penodol yn codi (na fyddai'n amhosibl eu goresgyn, ond a fyddai wedi cael effaith ar eglurder a hygyrchedd), er enghraifft–
 - i. mae'n debygol y byddai ar y Bil angen darpariaeth benodol yn ymdrin â gweithrediad parhaus Deddf 1978 mewn perthynas â phethau a wnaed mewn deddfwriaeth neu o dan ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod cyn i Ddeddf 1978 beidio â gweithredu mewn perthynas â Deddfau a Mesurau'r Cynulliad etc.;

²¹ Ceir ffurfiau o is-ddeddfwriaeth ddwyieithog na fyddai'n ddarostyngedig i'r Bil; er enghraifft Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n bodoli yn Gymraeg a Saesneg a wneir gan y Sofren o dan Ddeddf gan Senedd y DU.

²² Rydym yn rhag-weld y byddai Bil sy'n gymwys yn y ffordd hon gymaint â 50% yn fwy na'r Bil Drafft.

- ii. mae'n debygol y byddai angen i'r Bil egluro effaith peidio â chymhwyso rheolau newydd i ddeddfwriaeth bresennol, ac a yw hynny'n effeithio ar ddehongli'r ddeddfwriaeth honno;
- iii. nid yw'r mwyafrif o'r rheolau yn Neddf 1978 yn gymwys, os yw'r "bwriad i'r gwrthwyneb" yn ymddangos; byddai angen addasu'r rheol hon wedyn at ddibenion y Bil, ac fe allai fod yn anghydawns â'r dull gweithredu newydd a ddefnyddir yn y Bil²³.

74. Am y rhesymau hyn, daethom i'r casgliad na ddylid defnyddio'r dull gweithredu hwn o ran cymhwyso'r Bil.

Geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-offerynnau Cymreig penodol

75. Nid yw'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf 1978. Mae'r adran hon yn darparu bod gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr un ystyr ag yn y Ddeddf y gwnaed yr is-ddeddfwriaeth o dani. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth gyfatebol am ddau reswm –
- a. bwriedir iddo helpu i wella hygyrchedd is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt (ac nad yw adran 11 o Ddeddf 1978 yn gymwys iddynt);
 - b. mae'n helpu i hwyluso cymhwyso'r Bil i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddfau Senedd y DU.
76. O ran y rheswm cyntaf: prif effaith y cysylltiad y darperir ar ei gyfer yn adran 11 o Ddeddf 1978 yw y bydd is-ddeddfwriaeth mewn llawer o achosion yn cynnwys termau na ddiffinnir mohonynt yn yr is-ddeddfwriaeth, ond y rhoddir ystyr benodol iddynt gan y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth o dani. Rydym yn cytuno â'r sylw yn *Craies on Legislation* fod adran 11 yn 'significant trap for the unwary reader'²⁴ o ganlyniad i hyn.
77. O ran yr ail reswm: bydd is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i Atodlen 1 i'r Bil (nad yw, fel y nodir uchod, yn atgynhyrchu rhan sylweddol o Atodlen 1 i Ddeddf 1978). Er mwyn atal unrhyw broblemau posibl rhag codi yn sgil cymhwyso Atodlen 1 i'r Bil Drafft i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddfau Senedd y DU, ochr yn ochr â chymhwyso parhaus Atodlen 1 i Ddeddf 1978 i'r Deddfau hynny

²³ Gweler paragraffau 3(3), a drafodir isod.

²⁴ 11^{eg} Argraff. 2017, paragraff 22.1.16.

gan Senedd y DU, mae'r Bil Drafft yn cynnig torri'r cysylltiad rhwng yr is-ddeddfwriaeth a'r Deddfau y mae'n cael ei gwneud o danynt.

78. Ystyriwyd beth fydd effaith dileu'r 'fagl' a grëwyd gan adran 11 ac er ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth wneud darpariaeth fesul achos, cafwyd y bydd unrhyw ddarpariaeth ddehongli a wneir yn arwain at is-ddeddfwriaeth sy'n fwy dealladwy a hygyrch heb orfod troi at y Ddeddf neu'r Mesur y cafodd ei gwneud o dani/o dano.
79. Bydd angen i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth y bydd Rhan 2 yn gymwys iddi ystyried y ffordd orau o dynnu sylw'r darllenydd at ystyr geiriau allweddol yn y deddfwriaeth. Os bydd nifer mawr o eiriau ac ymadroddion diffiniedig yn ymddangos yn yr offeryn a'r Ddeddf neu'r Mesur, neu os oes angen, beth bynnag, i ddarllenydd yr offeryn droi'n rheolaidd at y Ddeddf neu'r Mesur, gallai fod yn briodol ychwanegu geiriau at yr offeryn sy'n atgynhyrchu effaith adran 11 o Ddeddf 1978. Gallai hyn fod yn briodol hefyd os bydd rhywbeth y tu allan i'r Ddeddf neu'r Mesur yn effeithio ar ystyr y geiriau neu'r ymadroddion a ddefnyddir ynddi; y gyfraith gyffredin neu Ddeddf arall, er enghraifft. Ar y llaw arall, dylai fod modd yn aml i'r diffiniad o eiriau neu ymadroddion gael ei nodi'n llawn mewn is-offeryn Cymreig, sy'n golygu nad oes rhaid i'r darllenydd gyfeirio at y Ddeddf neu'r Mesur y cafodd ei gwneud o dani er mwyn deall yr offeryn. Bydd hyn hefyd yn golygu, yn achos is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau Senedd y DU, y bydd y diffiniad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu ynghylch cymhwyso Rhan 2 o'r Bil Drafft?

Pennod 2 – Esboniad adran wrth adran o Ran 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)

80. Mae'r Bennod hon yn ystyried pob rheol a gynhwysir yn Rhan 2 o'r Bil, a lle bo'n berthnasol yn cymharu hyn â'r ddarpariaeth bresennol a wneir gan Ddeddf 1978.

Cymhwyso'r Bil a diffiniadau o dermau allweddol

Adran 3 “Cymhwyso'r Rhan” ac adran 4 “Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Rhan”

81. Mae adran 3(1) yn nodi'r ddeddfwriaeth y mae'r rhan hon o'r Bil yn gymwys iddi. Nodir effeithiau'r is-adran hon uchod. Diffinnir rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon yn adran 4.
82. Mae adran 3(3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle nad yw rheol yn y Bil yn gymwys i Ddeddf benodol gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu i ddarpariaeth mewn Deddf neu offeryn o'r fath. Mae Deddf 1978 yn defnyddio dull gweithredu gwahanol. Nodir bod y mwyafrif, ond ddim pob un, o'r rheolau yn y Ddeddf honno yn gymwys onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb (*“unless the contrary intention appears”*). Er bod y cysyniad hwn yn ymddangos yn ddigon clir (ac er y dibynnir arno mewn Deddfau dehongli eraill megis Deddf Dehongli 2005 sy'n gymwys yng Ngweriniaeth Iwerddon), yn ymarferol nid yw'n amlwg bob tro a oes bwriad i'r gwrthwyneb yn codi mewn darn penodol o ddeddfwriaeth.
83. Mae'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 3(3) yn adlewyrchu'r hyn a ddefnyddir yn Neddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010, Deddf Dehongli Seland Newydd 1999 a'r Bil Deddfwriaeth sydd gerbron Senedd Seland Newydd ar hyn o bryd. Mae'n fwy cul na'r dull gweithredu a ddefnyddir yn Neddf 1978, gan y gellid dadlau ei bod yn ei gwneud yn llai tebygol y bernid, mewn unrhyw sefyllfa benodol, na fyddai rheol yn y Bil yn gymwys. Ond gellid barnu bod y dull gweithredu hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r darllenydd, gyda'r effaith ychwanegol y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth ystyried defnydd amlach o eiriau penodol mewn Deddf neu offeryn i ddatgymhwyso rheol yn y Bil.
84. Ar y llaw arall, mae'r dull gweithredu hwn yn lleoli'r cyfyngu hwn ar gymhwyso'r Bil ar flaen y Bil, yn hytrach nag ym mhob rheol unigol (fel yn Neddf 1978). Er bod y prawf yn fwy cul na dull gweithredu “bwriad i'r gwrthwyneb”, gellid dadlau bod rhywfaint o amheuaeth mewn rhai achosion ynghylch a yw cyd-destun Deddf neu offeryn Cymreig yn mynnu nad yw rheol benodol yn gymwys.

85. Nid yw adran 3(3)(a) yn hollol angenrheidiol mewn perthynas â Deddfau, gan y byddai'n agored i Ddeddf, hyd yn oed yn niffyg y ddarpariaeth honno, ddatgymhwyso'n unswydd unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1978; ond mae'n helpu i wneud y sefyllfa yn glir.
86. Mae adran 3(4) yn cyfyngu ymhellach ar y rheol mewn perthynas ag adrannau 10 (amser o'r dydd), 27 (Cymhwyso Deddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron) a 31 (adfer deddfiadau a ddiddymwyd). Mae hyn yn mynd i'r afael â'r ffaith bod pob un o'r adrannau hyn yn darparu na ellir datgymhwyso'r rheol o dan sylw ond â geiriau penodol.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 3(3) o'r Bil Drafft, sy'n datgymhwyso rheol arbennig os yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall?

87. Mae adran 4 yn nodi'r diffiniadau o dermau allweddol a ddefnyddir yn y Rhan, gan gynnwys y mathau o ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddynt.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn deddfwriaeth

Adran 5 "Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion" ac Atodlen 1 "Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion"

88. Mae adran 5 yn cyfateb i adran 5 o Ddeddf 1978, ac mae Atodlen 1 i'r Bil yn cyfateb i Atodlen 1 i Ddeddf 1978. Mae adran 5 o'r Bil, fel adran 5 o Ddeddf 1978, yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 (y mae'n ei chyflwyno) yr ystyr a roddir yn yr Atodlen honno lle y'u defnyddir yn Neddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt.
89. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn tynnu ar Atodlen 1 i Ddeddf 1978. Lle bo Atodlen 1 i'r Bil yn diffinio gair neu ymadrodd a ddiffinnir hefyd yn atodlen 1 i Ddeddf 1978, bwriedir i'r diffiniad a roddir yn y Bil gael yr un effaith â'r diffiniad yn Neddf 1978 (gyda dau eithriad a nodir isod). Mae rhai o'r diffiniadau yn Atodlen 1 i'r Bil yn ymddangos yn wahanol i'r diffiniad cyfatebol yn Neddf 1978. Ni fwriedir i hyn newid effaith y diffiniad, ond yn hytrach i wella hygyrchedd a gwneud y diffiniad yn fwy cywir yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol. Er enghraifft, 'Llys y Goron' ac 'Uwchlysoedd'.
90. Ceir dau ddiffiniad sy'n gymwys yn Atodlen 1 i'r Bil ac Atodlen 1 i Fil 1978 sy'n wahanol yn y Bil. Y cyntaf yw "*blwyddyn ariannol*". Yn Neddf 1978, cyfyngir y diffiniad hwnnw i rai cyfeiriadau sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus. Bydd y diffiniad yn y Bil yn gymwys at bob diben. Mae wedi cael ei ddefnyddio ar

adegau niferus ar draws cyfraith Cymru, ac mae'n adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o ddyddiad dechrau a dod i ben blwyddyn ariannol nodweddiadol.

91. Yr ail yw “Wales”: mae'r diffiniad o Gymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, (a nodir yn adran 158(1) o'r Ddeddf honno) i bob pwrpas yn ehangu'r diffiniad yn Neddf 1978 i gynnwys “*the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea*”. Gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ymdrin â phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud deddfwriaeth, mae'r Bil Drafft yn darparu i'r diffiniad safonol o ‘Cymru’ gyd-fynd â'r diffiniad sydd ynddo.
92. Rydym wedi nodi effaith bosibl adran 158(3) o Ddeddf 2006. Mae'r ddarpariaeth honno'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol

by order determine, or make provision for determining, for the purposes of the definitions of “Wales”..., any boundary between waters which are to be treated as parts of the sea adjacent to Wales, or sea within British fishery limits adjacent to Wales, and those which are not.

Trwy ddibynnu ar y diffiniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd cyfeiriadau at ‘Cymru’ mewn deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi'n ymgorffori effaith unrhyw orchymyn o'r fath. Ond os na ddymunir y canlyniad hwnnw am ba bynnag reswm, gellir defnyddio'r pŵer yn adran 5(2) o'r Bil²⁵ i ddiwygio'r diffiniad o Gymru a nodir yn Atodlen 1 i'r Bil.

93. Mae anawsterau, er hynny, gyda'r diffiniad o Gymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n deillio o'i dibyniaeth ar y diffiniad yn Neddf 1978. Mae'r diffiniad yn darparu mai ystyr ‘Cymru’ yw

the combined areas of counties created by section 20 of the Local Government Act 1972, as originally enacted, but subject to any alteration made under section 73 of that Act (consequential alteration of boundary following alteration of watercourse)

94. Mae Deddf 1978 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn bodoli mewn Saesneg yn unig, ac mae'r diffiniad yn Neddf 1978 yn dibynnu ar fersiwn sydd bellach wedi'i diddymu o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer diffiniad gweithredol a hygyrch o Gymru²⁶.

²⁵ Trafodir isod.

²⁶ Mae'r diffiniad o ‘England’ yn Neddf 1978 (y dibynnir arno yn y diffiniad o ‘Lloegr’ yn Atodlen 1 i'r Bil) hefyd yn cyfeirio at yr ardaloedd o'r siroedd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; felly mae angen i unrhyw ystyriaeth o ddiffinio Cymru mewn ffyrdd eraill roi sylw i bwysigrwydd sicrhau bod y diffiniadau o Gymru a Lloegr yn cyd-fynd, a hynny yn ddaearyddol ac ar draws y Bil a Deddf 1978.

Cwestiwn 5: A ydych yn credu y dylai “Cymru” gael ei diffinio drwy gyfeirio ar ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, neu drwy ryw ddull arall?

95. Y tu hwnt i'r gwahaniaethau uchod, diffinnir nifer o eiriau ac ymadroddion yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 sydd heb eu hatgynhyrchu yn y Bil, a hefyd cynhwysir rhai geiriau ac ymadroddion newydd na ddiffinnir mohonynt yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978.
96. Seiliwyd y penderfyniad i hepgor diffiniadau o rai geiriau ac ymadroddion a gynhwysir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ar nifer o ffactorau. Mae i rai o'r diffiniadau yn yr Atodlen honno berthnasedd cyfyngedig neu ddim perthnasedd o gwbl mewn perthynas â chyfraith a wneir yng Nghymru megis “*British overseas territory*” neu “*London borough*”) felly nid yw'r rhain wedi'u hatgynhyrchu yn y Bil – gweler Atodiad A i'r papur hwn am restr lawn.
97. Rhoddwyd sylw i'r ffaith mai po fwyaf o ddiffiniadau a gynhwysir yn Atodlen 1, mwyaf aml yn y byd y byddai angen i'r darllenydd roi'r ddeddfwriaeth y mae'n ei darllen o'r neilltu a throi at Atodlen 1 o'r Bil er mwyn penderfynu ar ystyr y ddeddfwriaeth honno. Ar y sail honno, mae'r Atodlen wedi'i chwtdogi i'r eitemau mwyaf defnyddiol neu hanfodol yn unig.
98. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys nifer cyfyngedig o eiriau ac ymadroddion nad ydynt ond yn groesgyfeiriadau i Ddeddfau eraill. Hon yw'r ffordd orau o ddiffinio gair neu ymadrodd ar adegau, er nad yw'n ddelfrydol. Fel rheol gyffredinol, roeddem o'r farn ei bod yn well i ddarllenwyr deddfwriaeth bod diffiniadau sy'n cynnwys croesgyfeiriadau yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf neu'r offeryn y digwydd y gair neu'r ymadrodd ynddynt yn hytrach nag yn y Bil. Y rheswm dros hyn yw y byddai cynnwys y diffiniad yn y Bil yn golygu y byddai darllenydd yn troi at y Bil ond yn gweld wedyn bod angen troi at drydedd Ddeddf neu offeryn. Lle mae diffiniadau o'r natur hon wedi'u cynnwys yn yr Atodlen mae hyn oherwydd eu bod yn darparu diffiniad cyfreithiol neu dechnegol o air y byddai angen ei ddiffinio fel arall er mwyn egluro ei ystyr neu i gael ei ddeall²⁷.
99. Rydym hefyd wedi ychwanegu'r diffiniadau canlynol, yn ymwneud â sefydliadau yng Nghymru:
- “Prif Weinidog”;
 - “Cwnsler Cyffredinol”;
 - “Cynulliad Cenedlaethol Cymru”;
 - “Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru”;
 - “Llywodraeth Cymru”;

²⁷ Er enghraifft: “Lloegr”, “Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi”, “Arglwydd Ganghellor”.

- f. "Gweinidogion Cymru";
- g. "Awdurdod Cyllid Cymru";
- h. "Tribiwnlys Cymreig".

100. Mae adran 5(2) yn darparu i bŵer ddiwygio'r Atodlen. Byddai hyn yn caniatáu i ddiffiniadau gael eu hychwanegu at yr Atodlen lle byddai o gymorth gwneud hynny. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Atodlen gael ei diwygio i adlewyrchu newidiadau a wneir gan Ddeddfau Senedd y DU neu is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â diffiniadau a gynhwysir yn yr Atodlen, neu i Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ei hun. O dan adran 38 o'r Bil, byddai'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a byddai'n ymarferadwy drwy offeryn statudol.

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn sydd wedi'i gynnwys, neu sydd heb ei gynnwys yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

Adran 6 "Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall"

101. Mae'r adran hon, sy'n hunanesboniadol, yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfatebol yn adran 6(c) o Ddeddf 1978. Dibynnir ar y ddarpariaeth hon yn y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth, ac mae'n helpu i hwyluso drafftio byrrach a mwy hyblyg.

Adran 7 "Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw"

102. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 6(a) a (b) o Ddeddf 1978.

103. Yn ymgynghoriad polisi 2017 nodwyd²⁸ nad oedd angen cynnwys y rheol ar rywedd yn adran 6(a) a (b) o Ddeddf 1978 ar y sail ei bod yn ddiangen o gofio'r arfer barhaus o ddrafftio deddfwriaeth mewn ffordd sy'n niwtral o ran rhywedd.

104. Rydym ers hynny wedi ystyried cymal 16 o'r Bil Deddfwriaeth drafft sydd gerbron Senedd Seland Newydd, y bwriedir iddo fod yn gymwys, yn ôl a ddeallwn, mewn perthynas â deddfwriaeth sydd beth bynnag wedi'i drafftio mewn ffordd sy'n niwtral o ran rhywedd. Yn arbennig, rydym yn nodi, yn wahanol i'r ddeddfwriaeth y bwriedir iddi ei disodli (adran 31 o Ddeddf Dehongli Seland Newydd 1999), nad yw'n cyfeirio'n benodol at y rhywedd gwrywaidd na'r rhywedd benywaidd. Mae i gymal 16 felly gwmpas ehangach o safbwynt y cysyniad o rywedd sy'n sail i'r rheol.

105. Diben adran 6 o'r Bil Drafft, fel yn achos y ddarpariaeth gyfatebol yn Seland Newydd, yw sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhy gul o ran ei chymhwysiad.

²⁸ Paragraff 79(a).

Mae wedi'i drafftio felly er mwyn sicrhau nad yw hyd yn oed geiriau ac ymadroddion a allai fod wedi cael eu hystyried yn niwtral o ran rhywedd yn y gorffennol (megis yr ymadrodd “ef neu hi” yn hepgor unrhyw un, ni waeth beth fo ei hunaniaeth o ran rhywedd).

106. Bydd angen i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth barhau i sicrhau nad yw drafftio mewn ffordd sy'n niwtral o ran rhywedd, a ddefnyddir ochr yn ochr ag adran 7 o'r Bil Drafft, yn arwain at ddryswch yn yr achosion hynny lle na fwriedir i ddarpariaeth fod yn niwtral o ran rhywedd.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 7 o'r Bil Drafft?

Adran 8 “Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.”

107. Nid oes gan adran 8 adran gyfatebol yn Neddf 1978. Mae'n tynnu ar ddarpariaeth debyg a geir mewn Deddfau dehongli eraill ar draws y Gymanwlad. Yn arbennig, rydym wedi ystyried y darpariaethau cyfatebol yn Neddf Dehongli Canada²⁹, a Deddf Dehongli ac Ordinhad Cymalau Cyffredinol Hong Kong³⁰, gan fod deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn ddwyieithog yn y ddwy awdurdodaeth hyn.
108. Afraid yw dweud bod rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â gair neu ymadrodd a ddiffinnir neu sydd ag ystyr mewn deddfwriaeth hefyd yn dwyn y diffiniad. Er enghraifft pe bai'r gair “walk” yn cael ei ddiffinio, wedyn rhaid i'r rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â “walk”, megis “walking” and “walker”, gael eu dehongli yng ngoleuni'r diffiniad hwnnw. Mewn rhai achosion er hynny, mae angen dileu pob amheuaeth ynghylch hyn. Gweler er enghraifft y diffiniad o “education” yn adran 83(4) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r diffiniad hwnnw mewn perthynas ag “educate” ac “educational”.
109. Bwriedir i adran 8 o'r Bil ddileu pob amheuaeth ynghylch cymhwyso'r diffiniad o air neu ystyr y gair o dan yr amgylchiadau hyn, er mwyn osgoi amwysedd yn ymarferol, ac i hwyluso drafftio mwy naturiol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y rheol yn pennu y tu hwnt i amheuaeth fod diffiniad o air neu ymadrodd yn gymwys er gwaethaf unrhyw amrywiad ar y gair neu'r ymadrodd sy'n codi oherwydd rheolau gramadeg.
110. O ran testun Cymraeg deddfwriaeth, bydd yr adran hon yn ei gwneud yn glir bod diffiniad neu ystyr yn gymwys er gwaethaf unrhyw oledffiadau ar air neu

²⁹ Interpretation Act, RSC 1985. Gweler adran 33 (3).

³⁰ Gweler adran 5.

amrywiadau ar ymadrodd sy'n deillio o reolau ynghylch trefn geiriau a strwythur brawddegau.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig a ddefnyddir yn adran 8 o'r Bil Drafft?

Adran 9 "Cyfeiriadau at gyfnodau o amser"

111. Nid oes gan adran 9 adran gyfatebol yn Neddf 1978. Mae'n tynnu ar adran 18(h) o Ddeddf Ddehongli Gweriniaeth Iwerddon 2005.
112. Yn aml mewn deddfwriaeth mae angen defnyddio disgrifiad hir o gyfnod o amser er mwyn osgoi unrhyw amwysedd o ran pryd y bydd yn dechrau ac yn dod i ben. Er enghraifft, gallai darpariaeth ddatgan –

Ceir rhoi hysbysiad yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y gorchymyn cyntaf ei wneud, ac sy'n gorffen â'r diwrnod a bennir yn y gorchymyn.

113. Gellid defnyddio adran 9 i gwtogi deddfwriaeth. Er enghraifft, byddai'n caniatáu i'r ddarpariaeth a nodir yn y paragraff uchod gael ei fynegi fel hyn –

Ceir rhoi hysbysiad o'r diwrnod y caiff y gorchymyn ei wneud hyd at y diwrnod a bennir yn y gorchymyn.

Anfantais y dull gweithredu hwn yw na fyddai modd datrys unrhyw amwysedd a allai godi ar wyneb y ddeddfwriaeth ond drwy droi at y Bil Drafft, ac mae defnyddioldeb cyffredinol yr adran hon yn dibynnu'n rhannol ar i ba raddau y byddai'r drafftio hwnnw yn ddealladwy heb orfod troi at y Bil Drafft. I'r graddau hynny, prif fwriad y ddarpariaeth hon yw bod yn drefniant wrth gefn lle mae amwysedd wedi codi, ac ni fwriedir iddo ddisodli'r defnydd o ddrafftio clir.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 9 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

Adran 10 "Cyfeiriadau at amser o'r dydd"

114. Mae adran 10 yn cyfateb i adran 9 o Ddeddf 1978, a bwriedir iddi gael yr un effaith. O dan yr adran hon mae cyfeiriad at amser penodol o'r dydd (megis 2pm neu 2am) yn gyfeiriad at amser safonol Greenwich, ac eithrio yn ystod y cyfnod pan fo amser haf Prydain yn gymwys, pan fo'r cyfeiriad at amser haf Prydain (hynny yw, yr amser a bennir at ddibenion cyffredinol yn ystod y cyfnod o amser haf gan adran 1 o Ddeddf Amser Haf 1972).

115. Nid yw adran 3(4)(a) yn gymwys i'r adran hon. Mewn geiriau eraill, bydd adran 9 yn gymwys i gyfeiriad at yr amser o'r dydd oni bai fod y ddeddfwriaeth y mae'n ymddangos ynddi yn darparu'n unswydd nad at amser safonol Greenwich neu (yn yr haf) at amser haf Prydain y cyfeirir. Gallai hyn godi mewn darpariaeth y mae angen iddi gyfeirio at yr amser y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Adran 11 "Cyfeiriadau at y Sofren"

116. Mae adran 11 yn cyfateb i adran 10 o Ddeddf 1978. Nododd ymgynghoriad polisi 2017³¹ nad oes angen cynnwys y rheol ynghylch cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at y Sofren, a nodir yn adran 2017 o Ddeddf 1978, yn y Bil Drafft ar y sail nad oes ei hangen.

117. Rydym wedi hynny wedi rhoi sylw i'r ffaith bod cyfeiriadau at y Sofren yn cynnwys cyfeiriadau at "*Ei Fawrhydi*" neu "*Ei Mawrhydi*", ac os bydd y Sofren yn newid bydd yr adran hon yn gweithredu mewn perthynas â chyfeiriadau o'r fath. Rydym wedi casglu felly fod y rheol hon yn ddefnyddiol ac y dylid ei chadw.

Adran 12 "Mesur pellter"

118. Mae adran 12 yn cyfateb i adran 8 o Ddeddf 1978. Nododd ymgynghoriad polisi 2017³² nad oes angen cynnwys y rheol ar bellter yn adran 2017 o Ddeddf 1978 yn y Bil Drafft ar y sail nad oes ei hangen. Roeddem o'r farn bod amrywiadau mewn perthynas â chymhwyso'r rheol hon yn golygu mai'r peth gorau fyddai ymdrin â hi fesul achos.

119. Rydym wedi rhoi sylw wedi hynny i'r ffaith bod mesuriadau o bellter yn codi mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gan gwmpasu pellteroedd bach a mawr, a'u bod yn cael eu cynnwys yn aml mewn deddfwriaeth o natur dechnegol megis Rheoliadau Adeiladu. Gallai ymdrin â phwnc adran 12 o'r Bil bob tro y mae cyfeiriad at bellter yn ymddangos arwain at ddeddfwriaeth anhylaw, heb lawer o fantais.

Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

Adran 13 "Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig"

120. Mae adran 13 ac adran 14 (a ystyrir isod) yn cyfateb i adran 7 o Ddeddf 1978 ond yn mynd ymhellach na'r adran honno drwy ddarparu hefyd ar gyfer cyflwyno dogfennau gan ddefnyddio cyfathrebu electronig.

³¹ Paragraff 79(b).

³² Paragraff 79(b).

121. Bydd adran 13(1) yn gymwys pryd bynnag y mae Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu y ceir cyflwyno dogfen neu fod rhaid ei chyflwyno (neu ei rhoi neu'i hanfon etc.) drwy'r post. Ystyriwyd darparu ar gyfer dull gweithredu mwy cyfyng i gyflwyno trwy'r post a'i gwneud yn ofynnol defnyddio rhyw fath o wasanaeth cyflwyno wedi'i gofnodi neu wedi'i hwyluso, ond roeddem yn pryderu y gallai hyn fod yn rhy feichus i unigolion a sefydliadau.
122. Mae is-adran (2) yn defnyddio dull gweithredu tebyg i is-adran (1), ond mewn perthynas â chyflwyno dogfennau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Ni fydd yn gymwys ond lle mae Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu y ceir cyflwyno dogfen neu fod rhaid cyflwyno dogfen yn electronig.
123. Gan mai e-bost yw'r prif ddull o anfon dogfennau'n electronig, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch cyflwyno dros e-bost. Bwriedir i'r cysyniad o "*cyfeirio'n briodol*" yn is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r anfonwr sicrhau bod yr e-bost yn cael ei anfon at gyfeiriad sy'n ddilys ac y gellir disgwyl yn rhesymol i'r derbynnydd gael gafael arno, a bod y cyfeiriad wedi'i nodi'n gywir yn yr e-bost.
124. Mae is-adran (2)(a) hefyd yn caniatáu i ddogfennau gael eu hatodi i e-bost, yn ogystal â chaniatáu mai'r e-bost ei hun fydd y ddogfen sy'n cael ei chyflwyno. Ni fwriedir iddi ganiatáu i wybodaeth gael ei hanfon yn electronig drwy anfon dolen at ddogfen a ddelir ar y rhyngwyd at rywun, y mae rhaid i'r derbynnydd wedyn gymryd camau pellach i gael gafael arni.
125. Mae is-adran (2)(b) yn ymdrin â mathau eraill o gyfathrebu electronig (gan gynnwys ffacs). Bwriedir iddi fod yn ddigon eang i gynnwys cynifer â phosibl o ddulliau hyfyw o anfon gwybodaeth yn electronig. Wrth gwrs, yn y dyfodol efallai y bydd angen edrych ar y ddarpariaeth hon eto i adlewyrchu newidiadau mewn arferion a thechnoleg.
126. Ystyriwyd newid natur y ddarpariaeth, yn gymharol ag adran 7 o Ddeddf 1978, fel y byddai'n gweithredu yn fwy fel darpariaeth ffurf safonol a fyddai'n gymwys pryd bynnag y byddai Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu y ceir neu fod rhaid cyflwyno dogfen (heb ddweud mwy am y dulliau cyflwyno)³³. Ni ddefnyddiwyd y dull hwn yn y Bil Drafft, gan y bernid mai'r peth gorau oedd parhau i'w gwneud yn ofynnol i Ddeddfau ac offerynnau ymdrin â dulliau cyflwyno, ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol (er enghraifft, cydsyniad ymlaen llaw i gyflwyno gwybodaeth drwy gyfathrebu electronig), ar

³³ Gweler adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010, sy'n arddel dull gweithredu mwy cynhwysfawr nag adrannau 14 a 15 o'r Bil.

wyneb y ddeddfwriaeth ei hun. Mae hyn yn cadw hygyrchedd, ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd heb yr angen i ddatgymhwysu rheol yn y Bil Drafft.

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir ynghylch cyflwyno dogfennau yn adran 13 o'r Bil Drafft?

Adran 14 "Y diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno"

127. Mae'r adran hon, fel adran 7 o Ddeddf 1978, yn dibynnu ar y cysyniad o "*yn nhrefn arferol y post*" at ddibenion barnu pryd y cyflwynir dogfen trwy'r post. Mae'r cysyniad hwn yn cynnig hyblygrwydd: Bwriedir iddo weithredu gyda chyflwyno dogfen gan ddefnyddio post dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth, neu ryw ddull arall o bost wedi'i hwyluso. Ym mhob achos, pan ddefnyddir post, gall yr anfonwr bennu'r dyddiad (gan adlewyrchu amseroedd cyflenwi arferol) erbyn pryd y bydd y ddogfen wedi'i chyflwyno, a gall fwrw ymlaen yn unol â hynny.
128. Ystyriwyd defnyddio amser mwy manwl-gywir o gyflwyno tybiedig (megis 48 awr neu ddau ddiwrnod gwaith) ond os bwriedir i adran 13 ganiatáu hyblygrwydd i anfonwr o ran pa ddull postio i'w ddefnyddio, mae'n anodd os nad yn amhosibl gorfodi amser penodol o gyflwyno tybiedig (er enghraifft, gallai dau ddiwrnod gwaith fod yn rhy hir lle defnyddir post dosbarth cyntaf, ac yn rhy fyr lle defnyddir post ail ddosbarth). Beth bynnag, rhagdybiaeth yn unig yw'r diwrnod pan fernir bod dogfen wedi'i chyflwyno, fel yn Neddf 1978 a gellir ei gwrthbrofi.
129. Mae adran hon yn ymdrin â'r diwrnod pan fernir bod pob dogfen wedi'i chyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebu electronig. Er mwyn adlewyrchu natur unionsyth bron pob cyfathrebu electronig, bernir bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno ar y diwrnod y'i hanfonir. Gellir defnyddio nifer o ddulliau gweithredu yn y cyd-destun hwn. Yn arbennig, ystyriwyd darparu bod cyflwyno dogfen drwy ddull cyfathrebu electronig (oni phrofir y gwrthwyneb) –
- yn unionsyth, neu
 - yn dod i rym 1 awr (neu ryw amserlen fyrrach arall) ar ôl i'r cyfathrebiad gael ei anfon, neu
 - yn dod i rym ar ddechrau'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r cyfathrebiad gael ei anfon.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ynghylch cyflwyno tybiedig (yn adran 14 o'r Bil Drafft) neu a ydych yn credu bod dewis amgen ymarferol mwy manwl-gywir?

Pwerau a dyletswyddau

Adran 15 "Parhad pwerau a dyletswyddau"

130. Mae adran 15 yn cyfateb i adran 12 o Ddeddf 1978. Mae'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran hon yn gymwys i bob pŵer a dyletswydd mewn perthynas â gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae'n pennu y tu hwnt i amheuaeth fod pwerau a roddir neu ddyletswyddau a osodir ar berson yn barhaus, ac y gellir eu harfer o bryd i'w gilydd ac yn ôl yr angen.

Adran 16 "Arfer pŵer sydd eto i ddod i rym neu gyflawni dyletswydd nad yw eto mewn grym"

131. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 13 o Ddeddf 1978, ond mae'n cynnwys nifer o wahaniaethau y bwriedir iddynt ddileu'r amheuon am derfynau'r pŵer a gynhwysir yn adran 13, ac am yr amgylchiadau lle gellir dibynnu'n iawn ar yr adran honno, sydd wedi codi yn ystod y cyfnod y bu Deddf 1978 mewn grym.

132. Mae'r newidiadau hyn mewn sylwedd, y bwriedir iddynt ei gwneud yn haws dibynnu ar yr adran lle bo'n briodol gwneud hynny, fel a ganlyn:

- a. gellir defnyddio'r pŵer yn adran 16 mewn perthynas â dyletswydd i wneud rhywbeth, yn ogystal â phŵer;
- b. nid yw adran 16, yn wahanol i adran 13, yn gyfyngedig i arfer rhai mathau penodol o bŵer;
- c. er mwyn osgoi ansicrwydd ynghylch a yw cyd-destun Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn ei gwneud yn ofynnol na ddylai adran 16 fod yn gymwys, mae adran 16(2) yn nodi'n union pryd y gellir dibynnu ar y pŵer;
- d. mae adran 16(4) yn caniatáu ar gyfer dibynnu ar ddarpariaethau yn y Ddeddf neu offeryn Cymreig nad ydynt mewn grym ond sy'n gysylltiedig neu'n atodol i'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gorfodi'r ddyletswydd;
- e. mae adran 16(5) yn ei gwneud yn glir bod unrhyw gyfyngiadau neu amodau a fyddai'n gymwys i arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd os byddai'r Ddeddf neu'r offeryn mewn grym yn llawn hefyd yn gymwys pan gaiff y pŵer ei arfer neu pan gaiff y ddyletswydd ei chyflawni gan ddibynnu ar adran 16.
- f. Nid yw adran 16 yn atgynhyrchu adran 13(a) o Ddeddf 1978; y bwriad oedd i'r ddarpariaeth honno fod ar waith lle nad yw'r ddarpariaeth mewn Deddf sy'n ymdrin â dyfodiad y Ddeddf i rym (y cyfeirir ato yn aml fel y ddarpariaeth gychwyn) mewn grym ei hun. Mae'r arfer drafftio sefydledig o

ddarparu bod y ddarpariaeth gychwyn ei hun yn dod i rym pan gaiff Deddf y Cydsyniad Brenhinol yn golygu mai pur anaml, os byth, y dibynnir ar adran 13(a). Mae dadleuon technegol eraill ynghylch dyfodiad deddfwriaeth i rym sydd hefyd yn awgrymu nad oes angen adran 13(a).

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 16 o'r Bil Drafft?

Adran 17 "Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth benodol"

133. Mae adran 17 yn cyfateb i adran 14A o Ddeddf 1978³⁴. Bydd yn gymwys mewn perthynas â phwerau mewn Deddf gan y Cynulliad i wneud is-ddeddfwriaeth, a bydd adran 14A yn dal yn gymwys i bwerau cyfatebol mewn Deddf gan Senedd y DU.
134. Fel adran 14A o Ddeddf 1978, mae adran 17 yn pennu y tu hwnt i bob amheuaeth y caiff Gweinidogion Cymru, neu unrhyw berson arall sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf gan y Cynulliad, ddarparu mewn is-ddeddfwriaeth –
- i'r ddeddfwriaeth beidio â chael effaith ar ddiwedd diwrnod penodedig neu ar ddiwedd cyfnod penodedig;
 - i'w gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y ddeddfwriaeth adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth.

Adran 18 "Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth"

135. Mae adran 18 o'r Bil yn cyfateb i adran 14 o Ddeddf 1978, ond mae nifer o wahaniaethau.
136. Lle mae Deddf yn rhoi pŵer i wneud rhai mathau o is-ddeddfwriaeth, mae adran 14 o Ddeddf 1978 yn darparu bod pŵer i ddiwygio, dirymu neu ailddeddfu unrhyw ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer hefyd yn cael ei awgrymu. Mae adran 14, er hynny, yn gyfyngedig o ran ei chymhwysiad: Mae'n gymwys i'r holl reolau, rheoliadau ac is-ddeddfau, ac i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor, gorchmynion ac is-ddeddfwriaeth arall (fel y'u diffinnir yn adran 21 o Ddeddf 1978) a wneir gan offeryn statudol.

³⁴ Cafodd adran 14A ei mewnosod yn Neddf 1978 gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

137. Cafodd y cyfyngiad ei orfodi gan y bernid nad oedd y pŵer i ddiwygio, dirymu neu ailddeddfu yn angenrheidiol ar gyfer pob math o is-ddeddfwriaeth³⁵. Er hynny, mae hyn yn gosod magl bosibl i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth gan y gallai fod angen darparu'n benodol bod modd diwygio neu ddirymu rhai mathau o is-ddeddfwriaeth, os dyna a fwriedir. Rydym o'r farn nad oes unrhyw reswm penodol yn deillio o arfer fodern i gadw'r cyfyngiad hwn. Nodwn nad yw adran 6 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 yn cynnwys y cyfyngiad hwn.
138. Mae adran 18 o'r Bil, yn wahanol i adran 14 o Ddeddf 1978, yn ei gwneud yn glir bod y rheol yn gymwys lle gwneir is-ddeddfwriaeth wrth gyflawni dyletswydd. Mae is-adran (2) yn pennu hyn y tu hwnt i bob amheuaeth, tra'n cyfyngu hefyd ar y pŵer i ddirymu a diwygio i'r graddau angenrheidiol i sicrhau nad oes modd tanseilio'r deddfwriaeth.
139. Yn olaf, mae'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 18 yn wahanol i adran 14 o Ddeddf 1978 gan ei fod yn darparu bod y pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth o dan sylw'n cynnwys pŵer i ddiwygio, ailddeddfu neu ddirymu, yn hytrach na chreu pŵer ymhyg ychwanegol. Mae hyn yn golygu nad oes angen darparu bod y pŵer i ddiwygio, ailddeddfu neu ddirymu yn arferadwy yn yr un ffordd, ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau, â'r pŵer ei hun.
140. Fel gydag adran 17, ni fydd adran 18 yn gymwys mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y DU. Yn yr achos hwnnw, bydd adran 14 o Ddeddf 1978 yn parhau'n gymwys mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â chynnwys dyletswyddau yn adran 18 o'r Bil Drafft?

Adran 19 "Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf gan y Cynulliad"

141. Nid oes gan yr hon adran gyfatebol yn Neddf 1978. Dylanwadwyd ar adran 19 gan gymal 41 o'r Bil Deddfwriaeth sydd gerbron Senedd Seland Newydd, a bwriedir iddi fynd i'r afael â mater sy'n codi pan fydd Deddf gan y Cynulliad yn diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth.
142. Er nad yw'n gyffredin i Ddeddf gan y Cynulliad ddiwygio neu ddiddymu is-ddeddfwriaeth, y mae enghreifftiau o hynny³⁶. Lle bo hyn yn digwydd, gall godi

³⁵ Adroddiad ar y cyd yn 1978 gan Gomisiwn y Gyfraith a Chomisiwn Cyfraith yr Alban ar Ddeddf Dehongli1889 etc. (Cmnd. 7235) (Law Com No. 90).

³⁶ Mae o leiaf bump o Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad wedi gwneud darpariaeth yn diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth.

cwestiynau ynghylch a fwriedir mewn rhyw ffordd i'r diwygiad neu'r dirymiad gyfyngu ar arfer y pŵer y gwneir is-ddeddfwriaeth o dano yn y dyfodol. Weithiau mae darpariaeth benodol yn cael ei gwneud yn y Ddeddf i ddileu unrhyw amheuaeth am hyn, ond byddai'r rheol yn adran 19 o'r Bil Drafft yn gwneud hyn yn ddiangen.

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 19 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

Adran 20 "Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl"

143. Nid oes gan yr hon adran gyfatebol yn Neddf 1978. Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer neu'n gosod dyletswydd i gyfarwyddydau a roddwyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch amrywio'r cyfarwyddydau hynny a'u tynnu'n ôl. Hyd yn oed mewn achosion lle nad oes unrhyw ddarpariaeth benodol ynghylch amrywio cyfarwyddydau neu eu tynnu'n ôl wedi'i gwneud, efallai y bydd modd dehongli bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu amrywio cyfarwyddydau a roddir o dani neu eu tynnu'n ôl.
144. Mae i adran 20 ddau ddiben: byddai'n pennu y tu hwnt i amheuaeth y gellir amrywio cyfarwyddydau neu eu tynnu'n ôl, a byddai'n dileu'r angen i ddatgan hyn yn benodol bob tro y caiff pŵer neu ddyletswydd yn rhoi cyfarwyddyd eu creu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ar draws yr holl ddeddfwriaeth y byddai Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi.
145. Ceir dwy ddarpariaeth arall sy'n ymddangos yn rheolaidd pan gaiff pŵer neu ddyletswydd yn rhoi cyfarwyddyd eu creu: a oes angen i'r cyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig, ac i ba raddau y gellir gorfodi'r cyfarwyddyd³⁷. Nid yw'r darpariaethau hyn yn digwydd â'r un rheoleidd-dra â darpariaeth ynghylch amrywio a thynnu'n ôl, ac yn achos gorfodi mae ystod o wahanol ddulliau gweithredu'n bodoli. Am y rhesymau hyn nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ar bwerau a dyletswyddau sy'n rhoi cyfarwyddydau.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 20 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

³⁷ Er enghraifft, gweler adran 45 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) neu adran 155 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at ddeddfwriaeth arall

Adran 21 "Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfwriaeth"

146. Mae adran 21 yn cyfateb i adran 20(1) o Ddeddf 1978. Bwriedir iddi ddileu unrhyw amheuaeth ynghylch yr union damaid o destun mewn un darn o ddeddfwriaeth sy'n cael ei grybwyll mewn un arall. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn perthynas â darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n gwneud gwelliannau. Er enghraifft, yn achos darpariaeth sy'n datgan "*Yn adran 1, yn lle'r geiriau "yr awdurdod lleol" hyd at "swyddog" rhodder "caiff y cyngor sir benodi dau neu ragor o swyddogion"*"; mae adran 20 yn peri y tu hwnt i amheuaeth fod y testun sydd wedi'i amnewid yn dechrau â "*yr awdurdod lleol*" ac yn cynnwys y geiriau hynny, ac yn dod i ben â "*swyddogion*" ac yn cynnwys y gair hwnnw.
147. Mae is-adran (2) o adran 21 yn estyn ystyr "deddfiad" yn yr adran hon (sydd, o dan adran 3, yn cynnwys Deddfau a Mesurau'r Cynulliad, Deddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau a'r Mesurau hynny) i gynnwys Deddfau Senedd yr Alban, deddfwriaeth Gogledd Iwerddon, ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau Senedd yr Alban neu ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon³⁸. Mae hyn yn golygu y bydd y rheol yn is-adran (1) yn gymwys lle bo darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt yn cyfeirio at raniad o Ddeddf neu offeryn o'r fath, neu at raniad o –
- unrhyw Ddeddf arall gan y Cynulliad neu Fesur arall gan y Cynulliad,
 - unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad,
 - unrhyw Ddeddf gan Senedd y DU,
 - unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,
 - unrhyw Ddeddf gan Senedd yr Alban, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan Ddeddfau o'r fath, a
 - deddfwriaeth Gogledd Iwerddon ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfwriaeth o'r fath.

Adran 22 "Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd"

148. Mae adran 22 yn cyfateb i 20(2) o Ddeddf 1978, sy'n ymdrin â'r sefyllfa lle mae Deddf neu ddeddfwriaeth arall yn cyfeirio at Ddeddf arall neu ddeddfwriaeth

³⁸ Mae adran 35 yn darparu bod i "deddfwriaeth Gogledd Iwerddon" yr un ystyr ag sydd i "Northern Ireland legislation" yn Deddf 1978. Mae'r term yn ei hanfod yn cwmpasu ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng nghyfraith Gogledd Iwerddon.

arall, a lle mae'r Ddeddf neu ddeddfwriaeth arall y cyfeirir ati wedi cael ei diwygio. Mae adran 20(2) o Ddeddf 1978 wedi bod yn destun craffu manwl dros y blynyddoedd, ac yn arbennig mae diffyg sicrwydd ymhlith ymarferwyr o ran i ba raddau y mae'n 'newidiadwy' (h.y. y graddau y mae'n gymwys i gyfeiriad at ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio wedyn).

149. Mewn geiriau eraill, mae'n glir bod adran 20(2) yn sicrhau'r canlyniad canlynol –

- os caiff Deddf A ei phasio, ac yn cael ei diwygio wedyn gan Ddeddf B;
- ac os caiff Deddf C ei phasio ar ôl Deddf B, ac yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf A;
- yna y cyfeiriad at Ddeddf C yw at Ddeddf A *fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf B*.

Ond mae amheuaeth ynghylch beth yw effaith adran 20(2) yn yr achos canlynol–

- Mae Deddf A yn cael ei phasio, ac yn cael ei diwygio wedyn gan Ddeddf B;
- Mae Deddf C yn cael ei phasio ar ôl Deddf B, ac yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf A;
- Mae Deddf A yn cael ei diwygio eto, gan Ddeddf D.

O dan adran 20(2) o Ddeddf 1978 nid yw'n glir, yn y sefyllfa uchod, a yw'r cyfeiriad yn Neddf C at Ddeddf A yn gyfeiriad at Ddeddf A fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf D.

150. Rydym wedi nodi bod adran 14 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 wedi'i drafftio i ddileu pob amheuaeth ynghylch y mater, ac i ddarparu yn yr ail senario yn y paragraff blaenorol, y byddai'r cyfeiriad yn Neddf C at Ddeddf A yn gweithredu fel cyfeiriad at Ddeddf A fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf D. Bwriedir i adran 22 o'r Bil Drafft gyflawni'r un canlyniad. Er bod adran 22 o'r Bil Drafft ac adran 20(2) o Ddeddf 1978 yn edrych yn wahanol iawn i'w gilydd, ni fwriedir unrhyw wahaniaethau eraill o ran eu heffaith.

151. Fel gydag adran 21, bydd yr adran hon yn gymwys i gyfeiriadau yn Neddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig at ystod o fathau eraill o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ledled y Deyrnas Unedig.

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil Drafft?

Adran 23 "Cyfeiriadau at offerynnau'r UE"

152. Mae adran 23 yn cyfateb i adran 20A o Ddeddf 1978³⁹. Mae adran 22 o'r Bil Drafft yn gwneud darpariaeth sy'n debyg, ond ddim yn union yr un fath, â'r ddarpariaeth yn adran 22, ac eithrio bod yr adran hon yn ymwneud â chyfeiriadau mewn Deddfau ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt.
153. Diffinnir 'offeryn gan yr UE' yn Atodlen 1 i'r Bil (ac fe'i diffinnir hefyd yn Atodlen 1 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972), drwy gyfeiriad at Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Ddeddf honno'n darparu (yn Atodlen 1) mai ystyr offeryn gan yr UE yw unrhyw offeryn a roddir gan unrhyw rai o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.
154. Lle bo Deddf neu offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt yn cyfeirio at offeryn gan yr UE, a lle diwygiwyd yr offeryn hwnnw gan offeryn arall gan yr UE cyn i'r Ddeddf gael ei gwneud neu cyn i'r offeryn Cymreig gael ei wneud, mae adran 23 o'r Bil yn darparu bod y cyfeiriad at offeryn gan yr UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd.
155. Heb unrhyw amheuaeth nid yw adran 20A o Ddeddf 1978 yn 'newidiadwy'. Mae wedi'i drafftio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir nad yw cyfeiriad, lle bo'n gymwys, mewn Deddf gan Senedd y DU at offeryn gan yr UE sy'n cael ei diwygio ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio yn gyfeiriad at offeryn gan yr UE fel y'i diwygiwyd. Mae adran 23 o'r Bil Drafft yn defnyddio'r un dull gweithredu, a hynny oherwydd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r paragraff hwnnw'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, wrth wneud is-ddeddfwriaeth o dan adran 2(2) o'r Ddeddf honno⁴⁰, i ddarparu i gyfeiriadau at offerynnau gan yr UE fod yn 'newidiadwy'. Mae hyn yn golygu bod rhaid i benderfyniad ynghylch a ddylai cyfeiriad at offeryn gan yr UE fod yn newidiadwy gael ei gymryd fesul achos.
156. Mae Senedd y DU wrthi'n ystyried Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael); mae'r Bil hwnnw'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf 1978, ond nid adlewyrchir y diwygiadau hynny yn y Bil Drafft. Os digwydd fod Rhan 2 o'r Bil yn symud ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad, cymerir unrhyw newidiadau i Ddeddf 1978 a wneir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i ystyriaeth.

³⁹ Mewnosodwyd adran 20A gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2005, ac fe'i diwygiwyd wedyn gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008.

⁴⁰ Hynny yw, is-ddeddfwriaeth a wneir at ddibenion gweithredu rhwymedigaethau, a darparu ar gyfer hawliau, o dan gyfraith Ewrop.

Adran 24 “Argraffiad o Ddeddfau gan y Cynulliad neu Fesurau gan y Cynulliad y cyfeirir atynt” ac adran 25 “Argraffiad o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt”

157. Mae adrannau 24 a 25, gyda'i gilydd, yn cyfateb i adran 19(1) o Ddeddf 1978. Mae adran 19(1) o Ddeddf 1978 yn galluogi darllenwyr deddfwriaeth i benderfynu, lle mae'r deddfwriaeth honno'n cyfeirio at Ddeddf, at ba 'argraffiad' o'r Ddeddf y cyfeirir.
158. Roedd adran 19(1) o werth arbennig yng nghyd-destun Deddf hanesyddol gan Senedd y DU; weithiau roedd gwahanol argraffiadau o Ddeddfau a statudau⁴¹, ac yn y deddfau a'r statudau hynny roedd y rhifo a threfn y darpariaethau weithiau'n amrywio rhwng yr argraffiadau. Mae rhychwant hanesyddol adran 19(1) yn golygu bod angen cyfeirio at enwi Deddfau “*by year, statute, session or chapter*”.
159. Mae adran 19(1) yn cyfeirio at y Deddfau a argreffir gan Argraffydd y Frenhines, neu o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi. Mae hon yn gymwys i holl Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad.
160. Nid yw'r cyfeiriadau at 'statute' a 'chapter' yn adran 19(1), ac adran 19(1)(a) a (b) yn eu cyfanrwydd, yn berthnasol mewn perthynas â chyfeiriadau at Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad. Maent, er hynny, yn berthnasol pan fo Deddf neu Fesur gan y Cynulliad, neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur o'r fath, yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf gan Senedd y DU. Mae adrannau 24 a 25 o'r Bil Drafft yn adlewyrchu hyn.
161. Bydd adran 24 yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt. Mae adran 24(2) yn cyfeirio at y Ddeddf neu'r Mesur a “*gyhoeddwyd*”, yn hytrach nag (yn adran 19(1) o Ddeddf 1978) “*printed*”. Bwriedir i hyn adlewyrchu newidiadau mewn ymarfer. Yn y gorffennol, mae Argraffydd y Frenhines (neu berson sy'n gweithredu o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi) wedi argraffu fersiwn o Ddeddf fel yr oedd adeg cael y Cydsyniad Brenhinol. Hon, i bob pwrpas, fuasai'r fersiwn ddiffiniol o'r Ddeddf, a gellid cael gafael arni o'r Llyfrfa. Er bod hyn yn dal yn wir heddiw, mae Deddfau ar gael hefyd ar wefan legislation.gov.uk, ar ffurf sy'n adlewyrchu yn union y fersiwn o'r Ddeddf sydd wedi'i hargraffu. Fel hyn y mae'r mwyafrif o bobl bellach yn cael mynediad at Ddeddf ac yn ei darllen.
162. Er mwyn gwella hygyrchedd deddfwriaeth, ac er mwyn osgoi awgrymu mai dim ond y fersiwn brintiedig o Ddeddf neu Fesur sy'n gallu cael ei hystyried fel y

⁴¹ Fel y nodir yn yr anodiad o adran 19 o Ddeddf 1978 ar Lexis Library, defnyddir 'Statute' yma yn ei ystyr ganoloesol; gweler, er enghraifft, Statud Marlborough 1267.

fersiwn y cyfeirir ati o dan adran 24, mae'r Bil yn cyfeirio at y fersiwn o'r Ddeddf neu'r Mesur "a gyhoeddwyd". Mae hyn yn caniatáu i fersiwn a gyhoeddir gan Argraffydd y Frenhines etc. heblaw drwy gael ei hargraffu fod y fersiwn y cyfeirir ati o dan adran 24.

163. Yn ymarferol, er hynny, mae gwefan legislation.gov.uk yn diweddarau Deddfau er mwyn ymgorffori diwygiadau a wneir i'r Deddfau hynny (tra'n cadw'r fersiwn wreiddiol o'r Ddeddf "*fel y'i deddfwyd*" ar gael). Mae'r diweddariadau hyn yn golygu y bydd y fersiwn brintiedig o'r Ddeddf a'r fersiwn ar-lein o'r Ddeddf yn wahanol i'w gilydd. Er mwyn osgoi dryswch, ac i osgoi cael effaith wahanol i adran 19(1) o Ddeddf 1978 (sy'n dal i gyfeirio at y fersiynau printiedig o Ddeddfau), mae adran 24(2) yn cyfeirio at –
- a. y copi ardystiedig o Ddeddf gan y Cynulliad (gweler 115(5D) a (5E) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), a
 - b. Mesur gan y Cynulliad fel yr oedd pan gafodd ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor (gweler adran 102 yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd bellach wedi'i diddymu, ond mae adran 106 o'r Ddeddf honno'n gwneud darpariaeth arbed i'r diddymiad o Ran 3 o'r Ddeddf honno).

Mewn geiriau eraill, mae adran 24(2) yn darparu bod cyfeiriadau at Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad yn gyfeiriadau at y fersiwn o'r Ddeddf neu'r Mesur a gyhoeddwyd gan Argraffydd y Frenhines etc. sy'n adlewyrchu'r Ddeddf neu'r Mesur fel yr oedd ar yr adeg y peidiodd â bod yn Fil neu'n Fesur arfaethedig a phan gafodd ei ddeddfu'n Ddeddf neu'n Fesur.

164. Mae adran 25 o'r Bil Drafft yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at Ddeddf neu Fesur gan Senedd y DU mewn Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt. O ganlyniad, mae angen, i bob pwrpas, atgynhyrchu adran 19(1) o Ddeddf 1978. Fel yn adran 24, dibynnir ar y cysyniad o gyhoeddi yn hytrach nag argraffu. Yn ogystal, mae strwythur adran 25 yn wahanol i adran 19(1) o Ddeddf 1978 er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Deddfau Senedd y DU bellach yn dod o fewn is-adran(1)(c) yn hytrach nag is-adran (1)(a) neu (b).
165. Mae Atodlen 2 i'r Bil yn disodli adran 23B o Ddeddf 1978 (sy'n llywodraethu sut y mae'r Ddeddf honno'n gymwys mewn perthynas â Deddfau a Mesurau'r Cynulliad) ag adrannau newydd 23B a 23C. Effaith adran 23C(5), ymhlith pethau eraill, yw y bydd adran 19(1) yn parhau'n gymwys lle mae Deddf gan Senedd y DU, neu Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad na fydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt, neu is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau a Mesurau o'r fath, yn cyfeirio at Ddeddf gan y Cynulliad y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Fodd

bynag nid yw adran 23C(5) ond yn cymhwysu adran 19(1)(c) i Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad, gan nad yw isadrannau 1(a) a (b) yn berthnasol.

Dyblygu troseddau

Adran 26 "Troseddau dyblyg"

166. Mae adran 26 yn cyfateb i adran 18 o Ddeddf 1978. Mae'r adran honno'n gymwys ar hyn o bryd lle mae gweithred person neu fethiant person i weithredu yn gyfystyr â throsedd o dan unrhyw gyfuniad neu un neu ragor o'r canlynol –

- a. Deddfau gan Senedd y DU,
- b. Deddfau gan y Cynulliad a Mesurau gan y Cynulliad,
- c. Deddfau gan Senedd yr Alban,
- d. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw rai o'r Deddfau neu'r Mesurau uchod,

neu o dan unrhyw un neu ragor o'r uchod, ac o dan y gyfraith gyffredin.

167. Effaith adran 18 yw y gellir erlyn a chosbi person y mae ei ymddygiad yn drosedd o dan unrhyw rai o'r mathau o ddeddfwriaeth dan sylw (mewn geiriau eraill, mae'r gwahanol droseddau sy'n cwmpasu'r ymddygiad dan sylw heb ragfarnu ei gilydd). Er hynny, mae adran 18 yn ei gwneud yn glir mai unwaith yn unig y gellir cosbi'r person o dan sylw am y drosedd.

168. Fel y nodir uchod, mae adran 18 o Ddeddf 1978 yn gweithredu mewn perthynas â Deddfau Senedd yr Alban⁴²; o ganlyniad nid yw Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 18. Ystyriwyd defnyddio dull gweithredu tebyg mewn perthynas â'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, a pharhau i ddibynnu'n llwyr ar adran 18. Er hynny, o gofio pwysigrwydd y rheol a dymunoldeb creu fersiwn ddwyieithog o'r rheol (ni waeth sut y mae'n cael ei chymhwyso), daethpwyd i'r casgliad ei bod yn well creu rheol gyfatebol.

169. Bydd adran 26 o'r Bil Drafft yn llywodraethu'r rhyngweithio rhwng Deddfau ac offerynnau y bydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt, a rhwng y Deddfau a'r offerynnau penodol hynny a'r gyfraith gyffredin. Bydd yn gymwys pan fydd ymddygiad yn drosedd o dan ddwy neu ragor o wahanol Ddeddfau neu offerynnau y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, neu'n drosedd o dan un neu ragor o Ddeddfau y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt yn ogystal ag o dan y gyfraith gyffredin.

⁴² Gweler 23A o Ddeddf 1978.

170. Bydd adran 18 yn gymwys hefyd lle bo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf neu offeryn y bydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi/iddo, ac o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae adran 18 yn gymwys iddi (gan gynnwys Deddfau a Mesurau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig na fydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt. Mae Atodlen 2 i'r Bil yn disodli adran 23B o Ddeddf 1978 (sy'n llywodraethu sut y mae'r Ddeddf honno'n gymwys mewn perthynas â Deddfau a Mesurau'r Cynulliad) ag adrannau newydd 23B a 23C. Yn adran 23C, bwriedir i is-adran (4) gyflawni'r canlyniad hwn.

Cwestiwn 17: A ydych yn credu y dylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch dyblygu troseddau (adran 26), neu a ddylem ddilyn y dull gweithredu a ddefnyddir yn yr Alban a gadael hwn fel mater yr ymdrinnir ag ef yn Neddf 1978?

Cymhwyso i'r Goron

Adran 27 "Cymhwyso Deddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron"

171. Nid oes gan adran 27 adran gyfatebol yn Neddf 1978, er bod darpariaeth debyg yn adran 20 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010.

172. Gall y cwestiwn a yw Deddf neu is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron⁴³ (hynny yw, a yw'r Goron yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd neu faich a orfodir gan y Ddeddf) beri problem yn ymarferol, gan ei fod yn cael ei lywodraethu gan reol yn y gyfraith gyffredin⁴⁴, sef nad yw Deddfau ac is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron oni bai –

- a. bod y Ddeddf yn darparu'n benodol ei bod yn rhwymo'r Goron,
- b. bod y Goron yn cael ei rhwymo drwy oblygiad angenrheidiol (er nad yw'n hollol sicr beth yw "goblygiad angenrheidiol" at ddibenion y rheol), neu
- c. bod eithriadau eraill i'r rheol yn gymwys (er enghraifft lle mae'r Goron yn ymglyfreithiwr mewn achosion sifil, mae'n dilyn o Ddeddf Achosion yn erbyn y Goron 1947 y caiff y Goron ei rhwymo gan yr holl statudau perthnasol sy'n ymwneud ag achosion sifil).

⁴³At y dibenion hyn, ystyr y Goron fel rheol yw naill ai: Y Sofren yn bersonol; ei gweision a'i hasiantwyr; a phersonau sydd bellach yn weision neu'n asiantwyr y Goron ond y credir eu bod mewn sefyllfa gyffelyb. Gall hefyd gynnwys eiddo'r Goron, megis tir a cherbydau'r Goron. Ond nid yw'r cwestiwn o beth yw'r Goron at ddibenion cymhwyso'r gyfraith bob amser yn glir.

⁴⁴Gweler yn benodol *Province of Bombay v Municipal Corporation of the City of Bombay* [1947] AC 58, *Lord Advocate v Dumbarton District Council* [1990] 2 AC 50; [1989] 3 WLR 1346, ac yn fwy diweddar *R (on the application of Black) v Secretary of State for Justice* [2017] UKSC 81 (sydd ym mhargraff 36 a 37, yn cynnwys "clarification" o'r prawf y tu ôl i'r rheol).

173. Yn niffyg darpariaeth benodol sy'n rhwymo'r Goron, mae hyn yn golygu bod angen ystyried a yw Deddf yn rhwymo'r Goron drwy edrych ar y rheol a'i therfynau, ac wedyn penderfynu a yw natur, cyd-destun a chynnwys y Ddeddf o dan sylw'n golygu bod rhaid bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi bwriadu i'r Goron gael ei rhwymo.
174. Mae adran 20 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 yn dileu pob amheuaeth am y mater hwn (ac yn diddymu'r rheol yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â Deddfau Senedd yr Alban y mae'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt, ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny). Gwneir hyn drwy ddarparu bod y Goron bob amser yn cael ei rhwymo gan Ddeddf neu is-ddeddfwriaeth oni bai bod y Ddeddf neu'r is-ddeddfwriaeth honno'n darparu'n benodol nad yw hyn yn wir.
175. Mae i adran 27 yr un effaith mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil Drafft yn gymwys iddynt. Deuai hyn â gwell eglurder drwy ymdrin â chwestiwn cymhwyso'r Goron mewn rheol statudol, a byddai'n golygu mewn perthynas ag unrhyw Ddeddf neu is-offeryn Cymreig penodol na fydd unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r Ddeddf neu'r offeryn yn rhwymo'r Goron.
176. Mae rhai anfanteision, er hynny, i'r dull gweithredu hwn Yn gyntaf mae'r dull hwn yn dibynnu (fel y mae'r arfer ar hyn o bryd) ar gymhwysiad y Goron i gyflawni canlyniad penodol, felly (yn yr achos hwn) rhaid i ddarllenwydd ddeall bod y Goron yn cael ei rhwymo gan y Ddeddf neu'r is-ddeddfwriaeth, lle nad oes darpariaeth benodol ynghylch cymhwyso'r Goron.
177. Yn ail, bydd effaith gyfreithiol distawrwydd mewn Deddf neu Fesur gan y Cynulliad yn wahanol yn dibynnu pryd y cafodd y ddeddfwriaeth o dan sylw'r Cydsyniad Brenhinol neu pryd y cafodd ei gwneud. Er enghraifft –
- a. nid yw distawrwydd mewn Deddf gan y Cynulliad nad yw Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi yn golygu nad yw'r Goron yn cael ei rhwymo gan y Ddeddf, yn ddarostyngedig i weithrediad rheol y gyfraith gyffredin, ond
 - b. bydd distawrwydd mewn Deddf gan y Cynulliad sy'n cael ei phasio *ar ôl* i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol yn golygu bod y Goron wedi'i rhwymo.
178. Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, a bydd mater penodol yn codi pan fo offeryn Cymreig yn ddarostyngedig i'r rheol yn adran 27, ond y Ddeddf y'i gwneir o dani ddim. Yn yr achos hwnnw, bydd distawrwydd ar y mater yn y Ddeddf yn arwain at ganlyniad gwahanol i'r distawrwydd yn yr is-ddeddfwriaeth.

179. Beth bynnag, nid yw'r sefyllfa bresennol yn foddhaol⁴⁵, er y byddai modd gwella'r sefyllfa yn raddol drwy ymdrin â chymhwysiad y Goron ar wyneb pob deddfwriaeth, a'i gwneud yn glir a yw'r ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron neu beidio.
180. O gofio natur weddol dechnegol y rheol hon, a dymunoldeb creu rheol benodol mewn deddfwriaeth ddwyieithog sy'n dileu pob amheuaeth am y mater ac sy'n golygu bod modd penderfynu'n rhwydd ar y cwestiwn o gymhwysiad y Goron, mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Bil.
181. Nodir i ddull gweithredu gwahanol gael ei ddefnyddio yn y Bil Drafft yr ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban arno a ragflaenodd Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 i'r dull a ddefnyddiwyd yn adran 20 o'r Ddeddf honno. Yn y Bil Drafft hwnnw, roedd y ddarpariaeth o dan sylw'n darparu bod y Goron i gael ei rhwymo gan Ddeddf gan Senedd yr Alban, neu gan is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf o'r fath, ddim ond os yw'r Ddeddf neu offeryn yn darparu'n benodol. Mewn geiriau eraill, mae distawrwydd mewn Deddf neu offeryn yn golygu nad yw'r Goron yn cael ei rhwymo; efallai fod hynny'n agosach at reol y gyfraith gyffredin nag adran 20 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010, er y byddai wedi bod yn newid sylweddol yn y gyfraith. Nododd y papur ymgynghori sy'n ymwneud â'r Bil Drafft hwnnw:

there are, however, arguments that this provision does not go far enough and that the Crown should be placed in the same position as any other subject and be bound by every [Act of the Scottish Parliament] [and all subordinate legislation made under such Acts] unless it is expressly provided otherwise.

Cwestiwn 18: A ddylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch Deddfau sy'n rhwymo'r Goron (adran 27), neu a ddylid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd arall?

Deddfwriaeth yn dod i rym

Adran 28 "amser dod i rym"

182. Mae adran 28 yn cyfateb i adran 4 (a) o Ddeddf 1978. Lle darperir ar gyfer y diwrnod y daw Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu ddarpariaeth mewn Deddf neu offeryn o'r fath i rym mewn deddfwriaeth, mae adran 28 yn darparu bod y Ddeddf neu'r offeryn yn dod i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw.

⁴⁵ Rydym wedi nodi sylwadau'r Fonesig Hale yn *R (on the application of Black) v Secretary of State for Justice* [2017] UKSC 81 (paragraff 35), yn galw ar i Senedd y DU, o bosibl gyda Chomisiwn y Gyfraith, ystyried rhinweddau diddymu'r rheol neu wrthdroi'r rhagdybiaeth bresennol.

183. Yn ymarferol, darperir ar gyfer y diwrnod y daw Deddf gan y Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf i rym fel arfer yn y Ddeddf ei hun⁴⁶, neu rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru ddod â hi i rym ar ddiwrnod penodol drwy wneud gorchymyn (a elwir yn orchymyn cychwyn fel rheol). Trafodir yr holl senarios hyn yn adran 28.

Adran 29 “Y diwrnod y daw Deddf gan y Cynulliad i rym”

184. Mae adran 29 yn cyfateb i adran 4 (b) o Ddeddf 1978. Er hynny, o dan adran 4(b) daw Deddf i rym ar y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol, ond o dan adran 29 o'r Bil Drafft daw Deddf gan y Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad i rym ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
185. Bydd adran 29 yn gweithredu lle nad yw Deddf gan y Cynulliad yn mynd i'r afael â dyfodiad y Ddeddf neu ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym (mewn geiriau eraill, mae'n ddistaw ar sut neu pryd y daw'r Ddeddf neu'r ddarpariaeth i rym. Y disgwyliad yw, fel adran 4 (b) o Ddeddf 1978, na ddibynnid fel rheol ar y ddarpariaeth hon yn ymarferol; ond y byddai'n drefniant defnyddiol wrth gefn.
186. Mae'r newid hwn yn golygu bod adran 29 yn gweithredu yn yr un ffordd ag adran 2 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori ar y Bil a ragflaenodd y Ddeddf honno⁴⁷, ac fel y nodir yn *Craies on Legislation*⁴⁸, mae adran 4(b) yn cynnwys elfen o fod yn ôl-weithredol a gall hyn achosi problemau yn ymarferol. Mae'r papur ymgynghori a ragflaenodd Ddeddf yr Alban yn ei esbonio fel a ganlyn:

The difficulty is that the date of Royal Assent is not known in advance. At the moment it is therefore possible that problems could arise where, for example, a Bill receives Royal Assent in the afternoon and those applying the law in the morning (for example, in the courts) have to apply the existing law which is then amended retrospectively.

Am y rheswm hwn, rydym o'r farn bod y dull gweithredu a ddefnyddir yn Neddf 2010 yn well na'r dull gweithredu yn Neddf 1978.

⁴⁶ Fel rheol drwy ddarparu bod y Ddeddf yn dod i rym ar ddiwedd cyfnod penodol yn dechrau gyda rhoi'r Cydsyniad Brenhinol, neu ei bod yn dod i rym ar ddiwrnod penodol. Yn achlysurol, bydd Deddf yn darparu i'r Ddeddf ddod i rym pan fydd digwyddiad penodol neu hapddigwyddiad arall yn digwydd.

⁴⁷ Gweler y sylwebaeth ar adran 2 yn yr ymgynghoriad hwnnw.

⁴⁸ 11^{eg} Argraff. 2017, paragraff 10.1.4.

Adran 30 "Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn deddfwriaeth i rym"

187. Nid oes gan adran 30 adran gyfatebol yn Deddf 1978. Mae'n nodi cynnig sy'n ymddangos mewn bron pob un o Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad, sy'n golygu nad oes angen cynnwys y ddarpariaeth hon fesul Deddf. Bydd hyn yn helpu i gwtogi Deddfau'r Cynulliad yn y dyfodol.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 30 o'r Bil Drafft?

Diddymu, dirymu ac ailddeddfu deddfwriaeth

188. Mae adrannau 31 i 34 o'r Bil Drafft, a drafodir isod, yn gwneud darpariaeth ynghylch effeithiau, a therfynau effeithiau, diddymu Deddf neu ddarpariaeth mewn Deddf, neu hyd yn oed gair neu ymadrodd mewn Deddf. Mae adran 35 o'r Bil (dehongli Rhan 2) yn nodi ystyr diddymu a dirymu pan gânt eu defnyddio yn y Rhan, ac wrth gwneud hynny'n gwneud darpariaeth benodol y bwriedir iddi adlewyrchu gweithrediad y gyfraith gyffredin ar Ddeddf 1978⁴⁹. O dan y gyfraith gyffredin mae 'diddymu' a 'dirymu' yn cynnwys nid yn unig ddiddymiadau a dirymiadau penodol⁵⁰, ond unrhyw gyfyngu ar y deddfiad. Mae hyn yn cynnwys Deddf sy'n darparu bod deddfiad arall yn "ceases to have effect" mewn perthynas â lle, person neu beth; neu lle mae gwelliant i ddeddfiad (neu amnewid y deddfiad) mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar weithrediad neu effaith y deddfiad⁵¹.

Cwestiwn 20: A ydych yn credu bod adran 35(2)(a) o'r Bil Drafft yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth yn y gyfraith gyffredin?

189. Mae adran 35(2)(b), sy'n cyfateb i adran 16(2) o Ddeddf 1978, yn golygu bod dyfodiad deddfiad dros dro i ben (sy'n golygu fel rheol ddeddfiad sy'n cynnwys yr hyn a elwir yn 'ddarpariaeth fachlud' – gweler y nodyn ar adran 17, uchod) yn gorfod cael ei drin fel diddymiad neu ddirymiad at ddibenion y Bil.

Adran 31 "Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer pethau a ddiddymir nac a ddirymir"

190. Mae adran 31 o'r Bil Drafft yn cyfateb i adran 15 o Ddeddf 1978. Mae adran 15 yn drech na rheol y gyfraith gyffredin fod Deddf, pan gaiff ei diddymu, yn cael ei

⁴⁹ Gweler yn arbennig, *Moakes v Blackwell Colliery Co* [1926] 2 KB 64. Yn yr achos hwnnw, y farn oedd bod disodli cyfeiriad mewn Deddf at swm o arian gyda swm uwch o arian yn ddiddymiad.

⁵⁰ Er enghraifft, darpariaeth sy'n datgan 'Diddymir adran 1' neu 'Yn adran 1, hepgorer 'a Chymru'.

⁵¹ Yn *Moakes v Blackwell Colliery Co* [1926] 2 KB 64, 70, y farn oedd bod disodli cyfeiriad mewn Deddf at swm o arian gyda swm uwch o arian yn ddiddymiad.

thrin fel pe na bai erioed wedi cael ei deddfu ac eithrio mewn perthynas â phethau sydd eisoes wedi'u gwneud a'u cwblhau o dan y Ddeddf. Heb adran 15, lle mae Deddf (Deddf A) yn diddymu darpariaeth mewn Deddf arall a oedd yn ei thro wedi diddymu trydedd Ddeddf (Deddf C), effaith Deddf A fyddai adfywio Deddf C. Gan mai pur anaml y dymunir y canlyniad hwn yn ymarferol, mae adran 15 yn darparu nad yw Deddf A yn yr amgylchiadau uchod yn adfywio Deddf C.

191. Mae adran 31 yn ei gwneud yn glir ei bod yn gweithredu hefyd mewn perthynas â diddymiaid a dirymiaid a wneir gan is-offerynnau Cymreig, a'i bod yn gweithredu (o gofio'r diffiniad o 'deddfiad' yn adran 4) lle mae Deddf gan y Cynulliad neu offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu unrhyw –
- Deddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad,
 - is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur o'r fath,
 - Deddf gan Senedd yr Alban,
 - is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf o'r fath, neu
 - unrhyw ddarpariaeth yn unrhyw un o'r mathau uchod o ddeddfwriaeth.
192. Er ei bod yn ymddangos bod hyn yn fwy cul nag adran 15 o Ddeddf 1978, sy'n gweithredu hefyd lle bo Deddf neu Fesur gan y Cynulliad (neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur o'r fath) yn diddymu deddfiaid eraill megis Deddf gan Senedd yr Alban), rydym yn credu yn ymarferol bod terfynau cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu na fydd Deddf gan y Cynulliad etc. yn diddymu unrhyw ddeddfiad y tu hwnt i'r rhai a restrir uchod.
193. Nid yw adran 31 yn ddarostyngedig i 3(3)(b) o'r Bil Drafft; felly os bwriedir na ddylai'r rheol hon fod yn gymwys mewn perthynas â diddymiad neu ddirymiad arbennig, bydd angen geiriau penodol yn y Ddeddf neu'r offeryn sy'n gwneud y diddymiad hwnnw.
194. Ym mharagraff 79(f) o ymgynghoriad polisi 2017 nodwyd y gellid estyn adran 2017 o bosibl i atal rheolau'r gyfraith gyffredin a ddiddymwyd gynt rhag cael eu hatgyfodi. Yn y Bil Drafft, ymdrinnir â'r mater hwn yn adran 32 (trafodir isod).

Adran 32 "Arbedion cyffredinol"

195. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 16 o Ddeddf 1978. Mae'r adran hon yn gweithredu mewn perthynas â'r un rheol o dan y gyfraith gyffredin ag adran 15 o Ddeddf 1978 (trafodir uchod, mewn perthynas â'r Bil Drafft). Lle mae Deddf yn diddymu deddfiad arall, mae adran 16 o Ddeddf 1978 –
- ym mharagraff (a), yn darparu ar gyfer rheol sydd yn fath o ehangiad ar y rheol y darperir ar ei chyfer yn adran 15, fel nad yw diddymiad neu

ddirymiad yn atgyfodi pethau (ac yn groes i adran 15, na ellir ei datgymhwysu ond drwy eiriau penodol os yw'r bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos);

- b. ym mharagraffau (b) i (e), yn darparu'n fwy cyffredinol ar gyfer yr hyn a ddisgrifir yn *Craies on Legislation*⁵² fel gwarchod 'transactions past and closed' rhag effaith diddymiad neu ddirymiad.

196. Yn *Craies on Legislation*, nodir bod yr adran hon yn rhoi effaith i'r rhagdybiaeth ganlynol 'the abolition of a particular law for the future is not intended to prevent the due operation of the rule of law as it stood prior to the abolition's taking effect'⁵³. Mewn geiriau eraill, nid yw diddymu cyfraith yn golygu bod angen trin pethau a ddigwyddodd neu faterion a gododd cyn y diddymiad fel pe na baent erioed yn ddarostyngedig i'r gyfraith. Er enghraifft, pe bai person yn cyflawni trosedd o dan gyfraith a ddiddymwyd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni ond cyn i'r mater gael ei ddwyn i brawf, mae adran 16 o Ddeddf 1978 yn golygu bod modd o hyd ei roi ar brawf a'i gosbi o dan y gyfraith honno.

197. Bwriedir i adran 32 o'r Ddeddf gael yr un effaith ag adran 16 o Ddeddf 1978. Yr unig newid i'r drafftio yw ei gwneud yn glir, yn adran 32(a), fod y cyfeiriad at 'unrhyw beth arall' yn cynnwys rheolau'r gyfraith gyffredin. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r mater a grybwyllir ym mharagraff 79(f) o ymgynghoriad polisi 2017.

198. Fel adran 31, bydd adran 32 ar waith lle mae Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu unrhyw –

- a. Deddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad,
- b. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur o'r fath,
- c. Deddf gan Senedd yr Alban,
- d. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf o'r fath, neu
- e. unrhyw ddarpariaeth yn unrhyw un o'r mathau uchod o ddeddfwriaeth.

Adran 33 "Ailddeddfu"

199. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 17(2) o Ddeddf 1978. Mae'r adran hon yn arbennig o ddefnyddiol mewn perthynas â chydgrynhoi deddfwriaeth⁵⁴, ond gellir dibynnu arni mewn amgylchiadau eraill. Mae ar waith pan fydd Deddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu, ac yn ailddeddfu, darpariaeth mewn unrhyw –

⁵² 11^{eg} Argraff. 2017, paragraff 14.4.10.

⁵³ *Ibid.*

⁵⁴ At ei gilydd, dyma ble mae'r gyfraith bresennol sy'n lledaenu ar draws ystod o statudau'n cael ei dwyn ynghyd mewn un Ddeddf, heb unrhyw newid sylweddol yn y gyfraith.

- a. Deddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad,
 - b. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur o'r fath,
 - c. Deddf gan Senedd y DU, neu
 - d. is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud dan y Deddfau hynny.
200. Yn yr achosion hynny, mae gweithrediad adran 33(1) yn golygu bod rhaid darllen cyfeiriad mewn unrhyw rai o'r mathau uchod o ddeddfwriaeth at y ddarpariaeth sydd wedi'i diddymu neu'i ddirymu fel cyfeiriad at y ddarpariaeth fel y'i haildeddfwyd.
201. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad yw'n angenrheidiol, fel mater o gyfraith, diwygio cyfeiriadau at y ddarpariaeth wedi'i diddymu er mwyn iddynt ddod yn gyfeiriadau at y ddarpariaeth sy'n ailddeddfu'r ddarpariaeth honno. Er hynny, yn ymarferol, lle bo modd byddai'r deddfiad diddymu neu ddirymu (neu ddeddfiad arall) yn gwneud yr holl welliannau angenrheidiol i bob cyfeiriad at y ddarpariaeth a ddiidymwyd. Mae hon yn rhan bwysig o unrhyw ymarfer i ddiwygio'r gyfraith.
202. Ar adegau, nid yw hyn bob amser yn bosibl; oherwydd maint a graddfa'r llyfr statud gall fod anodd, os nad yn amhosibl, olrhain pob darpariaeth a ddylai gael ei diwygio. Mewn achosion o'r fath, bydd adran 33(1) yn cynnig trefniant wrth gefn defnyddiol, ac yn sicrhau bod y darpariaethau hynny'n parhau mewn grym.
203. Yn ogystal, lle mae ailddeddfiad yn mynd ymhellach, neu lle'r ymddengys ei fod yn mynd ymhellach, nag atgynhyrchiad yn unig o'r ddarpariaeth sy'n cael ei diddymu, gall fod rhywfaint o amheuaeth ynghylch a yw adran 33(1) yn gymwys. Mae hyn yn golygu bod angen gofal wrth ddibynnu ar adran 33(1), ac mae'n golygu eto ei bod yn ddoeth i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth ei defnyddio fel trefniant wrth gefn i ddibynnu arno yn ôl yr angen yn unig.
204. Mae adran 33(1) yn wahanol i 17(2)(a) o Ddeddf 1978 mewn un ffordd; nid yw adran 17(2)(a) yn gweithredu ond lle darperir ar gyfer diddymu ac ailddeddfu yn yr un Ddeddf. Bydd adran 33(1) yn gweithredu lle darperir ar gyfer y diddymiad mewn un Ddeddf gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig a lle darperir ar gyfer yr ailddeddfiad mewn Deddf wahanol gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig gwahanol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws dibynnu ar adran 33(1), lle bo angen, heb orfod aflunio sut y caiff diddymiad ac ailddeddfiad eu darparu. Er enghraifft, mewn ymarfer cydgrynhoi, efallai y bydd yn ddymunol cael un Ddeddf yn nodi'r gyfraith wedi'i chydgrynhoidi, a Deddf arall sy'n ymdrin â phob un o'r diddymadau a'r diwygiadau canlyniadol.
205. Mae adran 33(2) a (3) yn cyfateb i adran 17(3) o Ddeddf 1978. Mae'r is-adrannau hyn yn golygu bod rhaid trin unrhyw beth a wneir o dan ddarpariaeth

wedi'i diddymu sydd wedi'i haildeddfu fel pe bai wedi'i wneud o dan yr ailddeddfiad.

206. Nid yw'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 17(1) o Ddeddf 1978. Mae'r ddarpariaeth honno, sy'n darparu pan fydd Deddf yn diddymu ac yn amnewid darpariaeth fod y ddarpariaeth a ddiddymwyd yn aros mewn grym nes i'r amnewidiad ddod i rym, i bob pwrpas yn cael ei gwneud yn ddiangen gan arferion drafftio modern; mae deddfwriaeth fel rheol bellach yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y daw'r diddymiad a'r amnewidiad i rym.
207. Mae adran 33(4) yn estyn effaith is-adran(1) er mwyn iddi fod yn gymwys i ddeddfiadau wedi'u haildeddfu a geir mewn gweithredoedd, ac offerynnau a dogfennau eraill. Mae hyn yn atgynhyrchu effaith adran 23(3) o Ddeddf 1978.

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 33 o'r Bil Drafft?

Adran 34 "Cyfeirio at Ddeddf gan y Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu"

208. Mae adran 34 yn cyfateb i adran 19 (2) o Ddeddf 1978. Mae gan holl Ddeddfau'r Cynulliad enw byr ac enw hir. Mae'r enw hir yn rhan o'r Ddeddf ei hun ac mae'n ddisgrifiad (hirfaith yn aml) o gynnwys y Ddeddf. Rhaid iddo gwmpasu pob un o elfennau'r Ddeddf ond nid oes angen iddo gynnig esboniad neu eglurhad yn benodol. Mae'n bodoli yn bennaf am resymau sy'n ymwneud â'r weithdrefn deddfwriaethol⁵⁵, ond gall y llysoedd (i raddau cyfyngedig) ei ddefnyddio fel canllaw wrth ddehongli'r Ddeddf. Darperir ar gyfer enw byr Deddf fel rheol mewn darpariaeth yn y Ddeddf ei hun, ac fel y mae'r enw yn awgrymu mae'n darparu enw byr a chyfleus y gellir ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth arall i gyfeirio at y Ddeddf. Effaith adran 34 fydd cadw dilysrwydd cyfeiriadau at Ddeddf yn ôl ei henw byr hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf, a'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â'i henw byr, gael eu diddymu.
209. Mae adran 34 o'r Bil Drafft (ac adran 19(2) o Ddeddf 1978) yn angenrheidiol oherwydd yr arferion sefydledig yn Senedd y DU ac yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag enwau hir a byr. Er bod cyfleuster a rheidrwydd meddu ar enw byr yn amlwg, mae'r enw hir yn llai defnyddiol efallai fel offeryn ar gyfer darllenwyr Deddfau. Oherwydd natur hynafol braidd yr enw hir, a'i leoliad mewn Deddf⁵⁶, mae i ba raddau y'i defnyddir ac y dibynnir arno yn ymarferol yn amheus. Dewis arall fyddai darpariaeth "trosolwg" y bwriedir

⁵⁵ Er enghraifft, wrth benderfynu beth yw "cwmpas" Bil, helpu i benderfynu a oes unrhyw ddiwygiad arbennig yn ddigon perthnasol i'r Bil gael ei ganiatáu.

⁵⁶ O dan yr enw byr, cyn y geiriau deddfu, ac felly cyn adran 1.

iddi ddisgrifio cynnwys Deddf, a helpu'r darllenydd i lywio'r cynnwys, mewn arddull fwy modern. Mae wedi dod yn fwy cyffredin, yn enwedig mewn Deddfau Cynulliad hirach a mwy cymhleth, i gynnwys darpariaethau trosolwg i helpu'r darllenydd i ddeall y Ddeddf (neu Ran neu Atodlen benodol). Mae gwneud mwy o ddefnydd o ddarpariaethau trosolwg mewn Deddf, neu ddefnyddio rhywbeth tebyg i ddarpariaeth drosolwg yn lle'r enw hir, yn fater o fabwysiadu arfer yn fwy na dim, a gallai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud hyn pe bai'n ystyried bod hynny'n briodol.

Cwestiwn 22: A ddylid ailystyried y defnydd parhaus o enwau hir wrth ddrafftio Biliau?

Darpariaeth atodol

Adran 35 "Dehongli Rhan"

210. Mae'r adran hon, yn ychwanegol at adran 4, yn darparu ar gyfer diffiniadau o ymadroddion a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Bil. Trafodir effeithiau diddymu a dirymu uchod, mewn perthynas ag adrannau 31 i 34 o'r Bil Drafft.
211. Nid yw'r diffiniadau yn yr adran hon yn gymwys y tu allan i'r Bil (yn wahanol i'r diffiniadau yn Atodlen 1 i'r Bil, a fydd yn gymwys i holl Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y bydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt).

Adran 36 "Deddf Dehongli 1978" ac Atodlen 2 "Diwygio Deddf Dehongli 1978"

212. Mae'r adran hon a'r Atodlen yn darparu ar gyfer diwygio Deddf 1978. Mae effeithiau'r diwygiadau hyn wedi cael eu hystyried lle bo'n briodol drwy gydol y papur hwn.

RHAN 3: MATERION ERAILL Y GELLID MYND I'R AFAEL Â NHW

213. Wrth ddatblygu'r Bil Drafft rydym wedi dechrau ystyried materion eraill y gellid fod angen mynd i'r afael â nhw mewn deddfwriaeth yn y dyfodol. Gofynnir am farn am y materion hynny hefyd.

Ailddatgan rhai darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006

214. Rydym wedi ystyried dymunoldeb ailddatgan rhai o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y Bil, yn enwedig adran 156 o'r Ddeddf honno, sy'n ymwneud â chydraddoldeb testunau Cymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth ddwyieithog.

215. Gallwn weld manteision nodi rheol sylfaenol fel hyn yn Rhan 2 o'r Bil, ond ceir dwy broblem wrth wneud hynny. Yn gyntaf, o dan ein dull arfaethedig, ni fydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys i'r holl Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad a'r is-ddeddfwriaeth a wneir o danynt. Ymhellach, mae adran 156(1) hefyd yn gymwys i is-ddeddfwriaeth ddwyieithog a wneir gan Lywodraeth y DU (neu unrhyw berson arall), ac felly bydd yn gymwys i ystod o ddeddfwriaeth na fydd yn ddarostyngedig i'r Bil. I'r perwyl hwnnw, byddai angen i adran 156 ei hun (ac nid darpariaeth yn y Bil yn ailddatgan yr adran honno) barhau i weithredu mewn perthynas ag ystod o gyfraith ddwyieithog.

216. Mae terfynau cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn fater yma. Mae'r rheol yn adran 156 yn ffurfio rhan o'r gyfraith ledled y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd y rheol hon yn gymwys os bydd angen i unrhyw un o lysoedd y DU ddehongli cyfraith ddwyieithog. Ni all y Cynulliad Cenedlaethol, er hynny, wneud deddfwriaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr⁵⁷.

217. Byddwn yn parhau i ymchwilio i fecanweithiau deddfwriaethol priodol i ganiatáu ar gyfer ailddatgan adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, tra'n cadw ei gweithrediad presennol mewn perthynas â chyfraith y Deyrnas Unedig. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried dymunoldeb atgynhyrchu, ac ymestyn, y pŵer a nodir yn adran 156(2).

⁵⁷ Gweler adran 108 (ac ar ôl i ddarpariaethau perthnasol Deddf Cymru 2017 ddod i rym, adran 108A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cyfraith Cymru a'r broses o wneud a threfnu Offerynnau Statudol

218. Yn ogystal â phryderon ynglŷn â maint a chymhlethdod y llyfr statud, mae'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r gyfraith yn y DU wedi cael eu beirniadu hefyd. O ystyried ei bod eisoes yn anodd cael mynediad at y llyfr statud, rhaid i ddefnyddwyr deddfwriaeth fod yn siŵr pan fyddant yn edrych ar Ddeddf neu Offeryn Statudol penodol fod ganddynt y fersiwn ddiweddaraf o'u blaenau. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r defnyddwyr sicrhau bod ganddynt fersiwn sy'n cynnwys unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ers iddi ddod i rym. Er bod gwelliannau'n cael eu gwneud i wefan legislation.gov.uk, a weinyddir gan yr Archifau Gwladol, yr unig ffynonellau cynhwysfawr o ddeddfwriaeth gyfredol ar hyn o bryd yw'r rheini a ddarperir gan gyhoeddwyr masnachol am bris.
219. Unwaith yn rhagor, mae yna agwedd Gymreig i'r mater hwn. Fel y dywedwyd uchod, mae'r gwaith o ddiweddarau legislation.gov.uk yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes dull ar gyfer diweddarau testun Cymraeg deddfwriaeth. At hynny, nid oes darpariaeth glir a phenodol sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am gyhoeddi cyfreithiau Cymru. Yn wahanol i'r Alban⁵⁸ a Gogledd Iwerddon⁵⁹, nid oes swyddogaeth "Argraffydd y Frenhines i Gymru" ac nid oes 'cyfres' ar wahân o Offerynnau Statudol i Gymru⁶⁰. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu asesu sut y gellid diweddarau'r trefniadau presennol i adlewyrchu anghenion Cymru a'r oes ddigidol yn well.

Y berthynas rhwng testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth

220. Mae adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer rhoi statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru. Mae goblygiadau cael deddfwriaeth Cymru ddwyieithog yn cael eu hystyried yn fanwl ym mhapur ymgynghori ac adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*⁶¹. Rydym yn ystyried a ddylid gweithredu mewn unrhyw ffordd i egluro'r berthynas rhwng fersiynau'r ddwy iaith ymhellach wrth ddehongli deddfwriaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn asesu a dylid gwneud darpariaeth i ddelio â'r sefyllfa a allai godi pe byddai cyfraith Cymru'n cael ei diwygio mewn un o'r ddwy iaith yn unig gan Senedd y DU neu gan Weinidog y Goron.

⁵⁸ Cafodd swyddogaeth Argraffydd y Frenhines i'r Alban ei chreu gan Ddeddf yr Alban 1998.

⁵⁹ Penodir Argraffydd y Llywodraeth i Ogledd Iwerddon gan Ei Mawrhydi drwy freinlythyr.

⁶⁰ Er bod offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael is-rif sy'n dangos eu lle yn nilyniant offerynnau statudol Cymru ar gyfer y flwyddyn dan sylw, maent yn rhan o gyfres Offerynnau Statudol y DU gyda'r offerynnau a wneir gan Weinidogion Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, ceir cyfres hollol ar wahân o "Offerynnau Statudol yr Alban" ac yng Ngogledd Iwerddon caiff is-ddeddfwriaeth ei threfnu'n "Rheolau Statudol".

⁶¹ Gweler Pennod 12 o'r Papur Ymgynghori a'r Adroddiad.

Defnyddio cyfieithiadau Cymraeg o ddeddfiadau a chyrrff sydd heb enwau Cymraeg

221. Fel rhan o'r cynllun ehangach i wella hygyrchedd deddfwriaeth, rydym yn ceisio barn am y ffordd y mae testun Cymraeg deddfwriaeth yn cyfeirio ar hyn o bryd at ddeddfiadau a dogfennau swyddogol eraill nad ydynt wedi eu gwneud yn Gymraeg ac at gyrrff nad oes ganddynt enwau Cymraeg.

Enwau byr deddfwriaeth

222. Hyd yma, mae enwau deddfiadau a wneir mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg mewn Deddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Gymraeg. Er enghraifft, mae adran 8(11) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn darparu fel a ganlyn:

Pan fo person wedi penodi person neu bersonau o dan adran 4 o **Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004** i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â gweithgaredd a wneir at ddibenion trawsblannu, mae'r person i'w drin hefyd fel un sydd wedi gwneud penodiad o dan yr adran hon mewn perthynas â'r gweithgaredd.

Where a person has appointed a person or persons under section 4 of the Human Tissue Act 2004 to deal after death with the issue of consent in relation to an activity done for the purpose of transplantation, the person is also to be treated as having made an appointment under this section in relation to the activity.

223. Mae'r testun Cymraeg yn darparu "*Deddf Meinweoedd Dynol 2004*" fel enw cwrteisi er gwaetha'r ffaith, yn dechnegol, nad oes yn y gyfraith Ddeddf o'r enw hwn. Enw byr y Ddeddf y cyfeirir ati yw "*Human Tissue Act 2004*". Cafodd yr enw byr hwn ei roi i'r Ddeddf gan adran 61 o'r Ddeddf honno, ac yn Saesneg yn unig y mae'r ddarpariaeth honno.

224. Mae'r arfer hwn wedi hen ennill ei blwyf: mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn yr arfer hwn yn ei deddfwriaeth ers 1999. Dechreuodd Llywodraeth y DU ddefnyddio enwau cwrteisi Cymraeg mewn deddfwriaeth oedd yn gweithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 ac mae'n parhau i wneud hynny hyd heddiw (o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993).

225. Mae enwau cwrteisi yn cael eu defnyddio'n gyffredin hefyd mewn newyddiaduraeth, gwaith cyfreithiol ymarferol ac academaidd, cyhoeddiadau'r llywodraeth a chyfieithiadau swyddogol o ddeddfwriaeth. Mae geiriaduron a banciau termau Cymraeg-Saesneg hefyd fel arfer yn cynnig enwau cwrteisi.

226. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio enw Cymraeg i gyfeirio at Ddeddf Saesneg yn unig, gellid camarwain y darllenydd i feddwl bod y ddeddfwriaeth honno wedi cael ei gwneud yn Gymraeg neu ei bod ar gael yn Gymraeg. Gallai'r gwahaniaeth rhwng y deddfiadau hynny a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru (sy'n ddwyieithog) a'r rheini a wneir gan Senedd y DU neu Ysgrifennydd Gwladol (nad ydynt fel arfer yn ddwyieithog) fod yn annelwig hefyd o dan yr arfer presennol. Yn yr un modd, gallai fod yn anodd gwahaniaethu dros amser hefyd rhwng deddfwriaeth ynglŷn â phynciau sydd wedi'u datganoli a'r rheini nad ydynt wedi eu datganoli. Mewn llyfr statud i Gymru yn y dyfodol a fydd wedi'i gydgrynhoi a'i godeiddio, gallai cyfeirio yn Saesneg at ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig roi'r argraff nad oedd y pwnc dan sylw wedi'i ddatganoli.
227. Ers Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (y cyfeirir ati uchod), mae Deddfau'r Cynulliad, wrth gyfeirio at Ddeddf arall, wedi cynnwys bob amser gyfeiriad at rif y Ddeddf honno neu (yn achos Deddf Senedd y DU) rif y bennod. Wrth gyfeirio at Ddeddfau Cynulliad eraill defnyddir y mynegai cyfeirio “*dccc*” neu “*anaw*” gyda rhif y Ddeddf ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Er enghraifft, mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn cyfeirio at “*Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)*”. Wrth gyfeirio at Ddeddfau Senedd y DU, fel y nodwyd uchod, cyfeirir at rif y Bennod yn y Ddeddf dan sylw. Er enghraifft, mae Deddf 2017 yn cyfeirio at “*Deddf Cyllid 1996 (p. 8)*” neu “*Finance Act 1996 (c. 8)*”. Gallai'r cyfeiriad rhifiadol hwn fod o gymorth i'r darllenydd wahaniaethu rhwng ffynonellau'r Deddfau (h.y. y Cynulliad Cenedlaethol neu Senedd y DU) ac i wybod hefyd, felly, a ydy'n ddwyieithog ai peidio. Fodd bynnag, efallai nad oes llawer iawn yn deall y system gyfeirio hon.
228. Mae'r arfer o ddefnyddio enwau cwrteisi Cymraeg wedi'i ddilyn hefyd pan fo testun Cymraeg y ddeddfwriaeth yn cyfeirio at ddogfennau eraill sydd ar gael yn Saesneg ond nid yn Gymraeg, er enghraifft cyfarwyddebau a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd, confensiynau'r Cenhedloedd Unedig a chytundebau rhyngwladol eraill. Yn yr achosion hynny, bydd teitl y ddogfen neu'r disgrifiad ohoni yn dynodi natur y ddogfen a'r sefydliad a'i gwnaeth (ac yn achos offerynnau'r UE, bydd cyfeirnod swyddogol).

Newid diweddar i'r arfer presennol

229. Mae dull newydd wedi cael ei dreialu wrth gyflwyno Biliau'r Llywodraeth i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar i weld pa effaith y bydd yn ei chael ar hygyrchedd y testun Cymraeg. Yn y Biliau hyn, mae enw cwrteisi Cymraeg deddfiad Saesneg yn unig wedi cael ei gynnwys yn y prif destun heb rif pennod, ond mae'r enw Saesneg a rhif pennod wedi cael eu nodi mewn cromfachau, mewn llythrennau italig, yn union ar ôl yr enw cwrteisi Cymraeg. Er enghraifft,

mae adran 1 o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn darparu fel a ganlyn:

Mae Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (*Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52)*)... wedi ei diwygio fel a ganlyn.

230. Hepgorwyd rhif y bennod o'r enw cwrteisi Cymraeg er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gamarwain y darllenydd, pe byddai'n chwilio am y Ddeddf honno drwy gyfeirio at rif y bennod, y byddai'n cael hyd i Ddeddf gyda'r enw Cymraeg hwnnw.
231. Fodd bynnag, mae defnyddio'r dull hwn hefyd yn golygu bod y testun Cymraeg yn hwy. Mae hefyd yn golygu bod mwy o Saesneg yn ymddangos yn y testun Cymraeg a gallai hyn amharu ar y frawddeg Gymraeg ac effeithio ar ddarllenadwyedd (gallai hyn fod yn arbennig o wir yn achos offerynnau a chytuniadau'r UE gan fod eu henwau'n hirach na rhai deddfwriaeth y DU yn aml). Mae'r enw Saesneg yn cael ei ddarparu yn y testun Saesneg beth bynnag, a gall darllenwyr groesgyfeirio rhwng y naill iaith a'r llall (neu droi o un testun i'r llall wrth ddarllen y fersiwn HTML ar legislation.gov.uk).
232. Mae dulliau eraill o fynd ati hefyd fel a ganlyn:
- defnyddio'r enw Saesneg gyda'r enw cwrteisi Cymraeg mewn cromfachau;
 - defnyddio'r enw Saesneg yn unig;
 - defnyddio'r enw Cymraeg, ond diffinio drwy gyfeiriad at yr enw Saesneg⁶²; neu
 - defnyddio troednodiau (rhywbeth sy'n cael ei wneud yn aml mewn is-ddeddfwriaeth ond nid mewn deddfwriaeth sylfaenol).

Gellid bod modd cynnig atebion technolegol hefyd i'r rheini sy'n darllen deddfwriaeth ar-lein.

233. Rydym yn ystyried hefyd a ddylid rhoi'r gorau i'r arfer o roi rhif Deddf neu, yn achos Deddf gan Senedd y DU, rhif y bennod, ar wyneb deddfwriaeth. Mae Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r rhifau hyn, ac eithrio mewn Atodlenni o welliannau a diddymiadau lle mae'r Deddfau'n cael eu rhestru'n gronolegol; ac mae Llywodraeth yr Alban wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio'n llwyr. Os nad yw'r rhifau'n ddefnyddiol i

⁶² Er enghraifft: *Ystyr "Deddf Plant 2004" yw Children Act 2004 (c.31)*.

ddarllenwyr, mae dadl o blaid dilyn yr un arfer â Llywodraeth y DU yn nhestunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru. Ond byddai angen rhoi rhifau cyfeirnod o hyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth ac offerynnau'r UE (y gallai fod yn anoddach eu hadnabod yn gywir). Mae dadl, fodd bynnag, y gallai'r rhifau hyn helpu darllenwyr i wahaniaethu rhwng cyfeiriadau at Ddeddfau gan y Cynulliad a chyfeiriadau gan Ddeddfau gan Senedd y DU, a rhwng Deddfau gan Senedd y DU (nad ydynt ond yn bodoli yn Saesneg) ac enwau cwrteisi y Deddfau hynny (fel y nodir uchod).

Cyrff nad oes ganddynt enwau Cymraeg

234. Pan fydd corff yn cael ei sefydlu a'i enwi mewn Deddf gan y Cynulliad, mae'r corff yn cael enw Cymraeg a Saesneg. Er enghraifft, felly, mae adran 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn creu "*Awdurdod Cyllid Cymru*" neu "*Welsh Revenue Authority*". Mae hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd hefyd mewn Deddfau Seneddol er gwaetha'r ffaith nad yw'r Ddeddf ei hun ar gael yn ddwyieithog. Er enghraifft, rhoddir enw Cymraeg a Saesneg i CThEM gan adran 4 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 sy'n golygu y gall deddfwriaeth y Cynulliad gyfeirio at "*Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi*" a "*Her Majesty's Revenue and Customs*".
235. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi enw cwrteisi Cymraeg i gorff na fydd wedi cael enw Cymraeg trwy statud. Er enghraifft, mae testun Saesneg adran 4 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn cyfeirio at "*Scottish Parliament*" a'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "*Senedd yr Alban*". Wrth reswm, ni roddwyd enw Cymraeg i Senedd yr Alban gan adran 1 o Ddeddf yr Alban 1998 ond mae'n dal i gael ei alw'n gyffredin yn "*Senedd yr Alban*" yn Gymraeg. Yn yr un modd, mae testun Cymraeg adran 16 o Ddeddf Trawsblannu Dynol 2013 yn cynnwys cyfeiriadau at yr "*Awdurdod Meinweoedd Dynol*" sy'n gyfieithiad o "*Human Tissue Authority*" er gwaetha'r ffaith mai enw Saesneg yn unig – yn y gyfraith – sydd gan yr Awdurdod.
236. Defnyddir enwau cwrteisi hefyd ar gyfer cyrff a swyddfeydd nad ydynt wedi'u sefydlu trwy statud, er enghraifft mae Senedd y DU yn cael ei hadnabod fel "*Senedd y Deyrnas Unedig*". Nid yw cwmnïau preifat ac elusennau yn cael enwau cwrteisi a chyfeirir atynt yn y Gymraeg yn ôl yr enwau y maent wedi cofrestru oddi tanynt yn Nhŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennol.
237. Gellid ystyried bod yr arfer hwn yn gamarweiniol. Gan ystyried "*Revenue Scotland*" neu "*Cyllid yr Alban*", sy'n gorff cymharol newydd, fel enghraifft, byddai defnyddio "*Cyllid yr Alban*" yn yr achos hwn yn gallu camarwain y darlennydd. Nid oes unrhyw gorff o'r enw hwnnw ac nid yw'n debygol o fod yn gyfarwydd iawn. Fodd bynnag, gallai mater hygyrchedd fod yn fwy cynnil. A fyddai defnyddio "*Senedd yr Alban*" yn hytrach na "*Scottish Parliament*", er

enghraifft, wir yn camarwain y darllenydd? Onid yw hwn yn ymadrodd mor gyfarwydd, a dim modd camddehongli'r geiriau, fel mai ychydig iawn fyddai i'w ennill o safbwynt eglurder cyfreithiol pe ddefnyddid yr enw Saesneg. Oni fyddai'n dderbyniol, felly, defnyddio'r enw cwrteisi Cymraeg mewn deddfwriaeth?

238. Gallai'r canlyniadau pe na fyddem yn dilyn yr egwyddor bellach o ddefnyddio enwau cwrteisi, a defnyddio enwau Cymraeg dim ond lle y bo'r enwau hynny i'w cael eisoes, fod yn neilltuol. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i ddeddfwriaeth ynglŷn â threthi gyfeirio at gorff Cyllid yr Alban yn ogystal â CThEM yn yr un adran neu mewn cyfres olynol o adrannau. Yn y testun Cymraeg, byddai CThEM yn cael ei gydnabod yn ôl ei enw Cymraeg ond byddai'r cyfeiriad at *Revenue Scotland* yn Saesneg. Ni fyddai unrhyw awgrym ar wyneb y ddeddfwriaeth ei hun i'r darllenydd o'r egwyddor y tu ôl i'r penderfyniad dros ddefnyddio enw cwrteisi ai peidio.
239. Anfantais gyffredinol arall yw y byddai mwy o Saesneg yn y testun Cymraeg, a gallai hyn effeithio ar y dilyniant i'r darllenydd Cymraeg neu wneud y testun Cymraeg yn anos ei darllen.
240. Yn olaf, dylid nodi ei bod hi'n fwy anodd mabwysiadu egwyddor gyffredinol a dull cyson mewn perthynas â chyrff nag ydyw ar gyfer enwau Deddfau. Er enghraifft, pe byddai'r arfer hwn yn newid, i ddefnyddio'r enw Saesneg yn unig pan fo gan gorff enw Saesneg yn unig, ni fyddai enwau sy'n gyfarwydd ac sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin fel "*Senedd y Deyrnas Unedig*" yn cael eu defnyddio ychwaith. Ni fyddai mabwysiadu'r ddau enw mewn achosion o'r fath o gymorth mawr i'r darllenydd ychwaith, ac efallai'n wir na fyddai'n ddefnyddiol gwneud hynny o gwbl.
241. I grynhoi, gallai'r arfer cyfredol o gyfieithu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a chyrff sydd ag iddynt enwau Saesneg yn unig gamarwain darllenwyr mewn rhai achosion. Gallai'r dulliau eraill a nodir uchod fynd i'r afael â'r mater a gallent fod o fudd yn ehangach ar gyfer gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Fodd bynnag, mae rhai o'r farn hefyd mai ychydig o broblemau a achosir gan yr arfer cyfredol ac y gallai mwy o anfantaision nag o fantaision ddeillio o fabwysiadu dull arall.

Cwestiwn 23: A oes gennych farn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol (fel y nodir yn Rhan 3 o'r Papur Ymgynghori)?

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

RHAN 4: ASESIAU EFFAITH

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

242. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) drafft ar gyfer y Bil Drafft, y mae copi ohono i'w weld ar dudalen gwe'r ymgynghoriad. Mae hwn yn nodi'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer mynd i'r afael â materion hygrychedd a dehongliad statudol o Gyfraith Cymru, ac ar gyfer pob dewis mae'n amlinellu'r costau a'r manteision posibl.
243. Ceisir eich barn am yr RIA Drafft, yn enwedig mewn perthynas â dadansoddi costau a manteision y dewisiadau a ffeirir ar gyfer deddfu. Os bydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â deddfwriaeth yn sgil yr ymgynghoriad hwn, caiff RIA llawn ei baratoi. Bydd sylwadau ar yr RIA Drafft felly'n helpu i ddatblygu asesiad wedi'i gostio'n dda o'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried.

Cwestiwn 24: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ar gyfer y Bil Drafft?

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

244. Mae manteision ac effeithiau diwygio posibl o safbwynt y Gymraeg yn cael eu nodi yn y papur hwn, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Bil Drafft. Mae copi i'w gael ar wefan yr ymgynghoriad. Câi unrhyw sylwadau ar hyn eu croesawu, ac yn ogystal mae cwestiynau 26 a 27 o'r ymgynghoriad yn ceisio barn am effeithiau'r polisi arfaethedig.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

245. Fel rhan o'r ymgynghoriad polisi cynharach cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae hwn wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw, ac i gymryd i ystyriaeth datblygu'r Bil Drafft ymhellach. Mae copi o'r asesiad diwygiedig i'w gael ar dudalen gwe'r ymgynghoriad, a chroesewir sylwadau am hyn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol

246. Mae tudalen gwe'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Drafft. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar hyn hefyd.

Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiadau effaith drafft ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol?

Effeithiau eraill

247. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych wedi nodi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol (gan gynnwys effeithiau posibl nad ydym wedi ymdrin â hwy) mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle ichi nodi'r rhain ar y diwedd

Atodiad A – Geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 na chynhwysir mohonynt yn ym Mil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft

Diffinnir y geiriau ac ymadroddion canlynol yn atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 ac ni chynhwysir mohonynt yn Atodlen 1 i Fil Deddfwriaeth (Cymru) drafft.

Nodyn: gan mai yn Saesneg yn unig y mae'r geiriau a'r ymadroddion hyn wedi'u gwneud yn Neddf 1978, nid ydynt wedi cael eu cyfieithu yn y fersiwn hon o'r ddogfen ymgynghori.

“Act”

“Associated state”

“Bank of Ireland”

“British Islands”

“British overseas territory”

“British possession”

“Building regulations”

“Central funds”

“Charity Commission”

“Church Commissioners”

“Civil Partnership”

“Colonial legislature”, and “legislature” in relation to a British possession

“Colony”

“Commencement”

“Committed for trial”

“Comptroller and Auditor General”

“Consular officer”

“The Corporation Tax Acts”

“Court of Judicature”

“Court of summary jurisdiction”, “summary conviction” and “Summary Jurisdiction Acts”

“Crown Estate Commissioners”

“Enactment”

“Governor-General”, and “Governor” in relation to a British possession

“The Immigration Acts”

“The Income Tax Acts”

“Land Clauses Acts”

“Local land charges register”

“Local policing body”

“London borough”, “inner London borough”, and “outer London borough”

“National Debt Commissioners”

“Northern Ireland legislation”
“Officer of a provider of probation services”
“Officer of Revenue and Customs”
“Ordnance Map”
“Parliamentary Election”
“PAYE income”
“PAYE regulations”
“Police and crime commissioner”
“Police area”
“Police Service of Northern Ireland”
“Provider of probation services”
“Registered” (in relation to nurses and midwives)
“Registered medical practitioner”
“Registered provider of social housing” and “private registered provider of social housing”
“Sewerage undertaker”
“Sheriff”
“Statutory maximum”
“The Tax Acts”
“Trust of land” and “trustees of land”
“Water undertaker”

Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ar “construction of certain expressions relating to offences” wedi'i chynnwys yn y brif restr o eiriau ac ymadroddion diffiniedig yn Atodlen 1 i'r Bil.

Nid yw Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys y ddarpariaeth yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ynghylch “construction of certain references to relationships”, ar y sail bod y ddarpariaeth hon yn cyfeirio at Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1987 ac felly dylid ymdrin â hi fesul achos yn ôl yr angen.

Ffurflen

Ymateb i'r

Ymgynghoriad

Eich enw:

Corff (lle bo'n briodol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod angen gorfodi rhwymedigaeth statudol ar lywodraethau'r dyfodol yng Nghymru er mwyn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru?

Cwestiwn 2: Os ydych, a ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Bil Drafft i orfodi rhwymedigaeth o'r fath?

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu ynghylch cymhwysio Rhan 2 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 3(3) o'r Bil Drafft, sy'n datgymhwyso rheol arbennig os yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall?

Cwestiwn 5: A ydych yn credu y dylai "Cymru" gael ei diffinio drwy gyfeirio ar ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, neu drwy ryw ddull arall?

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn sydd wedi'i gynnwys, neu sydd heb ei gynnwys yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 7 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig a ddefnyddir yn adran 8 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 9 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir ynghylch cyflwyno dogfennau yn adran 13 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ynghylch cyflwyno tybiedig (yn adran 14 o'r Bil Drafft) neu a ydych yn credu bod dewis amgen ymarferol mwy manwl-gywir?

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 16 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â chynnwys dyletswyddau yn adran 18 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 19 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 20 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 17: A ydych yn credu y dylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch dyblygu troseddau (adran 26), neu a ddylem ddilyn y dull gweithredu a ddefnyddir yn yr Alban a gadael hwn fel mater yr ymdrinnir ag ef yn Neddf 1978?

Cwestiwn 18: A ddylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch deddfau sy'n rhwymo'r Goron (adran 27), neu a ddylid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd arall?

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 30 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 20: A ydych yn credu bod adran 35(2)(a) o'r Bil Drafft yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth yn y gyfraith gyffredin?

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 33 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 22: A ddylid ailystyried y defnydd parhaus o enwau hir wrth ddrafftio Biliau?

Cwestiwn 23: A oes gennych farn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol (fel y nodir yn Rhan 3 o'r Papur Ymgynghori)?

Cwestiwn 24: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ar gyfer y Bil Drafft?

Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiadau effaith drafft ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol?

Cwestiwn 26: Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai datblygu'r Bil Drafft yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â:

- i) helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleddfu effeithiau negyddol?

Cwestiwn 27: Esboniwch hefyd sut y gallai'r Bil Drafft gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Cwestiwn 28: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, byddwch cystal â'u nodi yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyl neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: